

**Arolygiad o dan Adran 28
Deddf Addysg 2005**

Adroddiad ar ansawdd addysg yn

**Ysgol Mynydd Bychan
Heol Seland Newydd
Caerdydd
CF14 3BR**

Rhif yr ysgol: 6812180

Dyddiad yr arolygiad: 15 Mawrth 2010

gan

**Rhiannon Harris
78850**

Dyddiad cyhoeddi: 20 Mai 2010

O dan rif contract Estyn: 1115809

® Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2010: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Cyflwyniad

Arolygwyd Ysgol Mynydd Bychan fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Mynydd Bychan rhwng 15/3/2010 a 17/3/2010, gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Rhiannon Harris. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae adroddiadau Estyn yn dilyn ei arweiniad ar gyfer ysgrifennu a golygu adroddiadau, sydd ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.u). Mae'r tabl isod yn dangos y termau a ddefnyddir gan Estyn a syniad bras o'u hystyr. Mae'r tabl ar gyfer rhoi arweiniad yn unig.

Bron pob un	gydag ychydig iawn o eithriadau
Y rhan fwyaf	90% neu fwy
Llawer	70% neu fwy
Mwyafrif	dros 60%
Hanner/tua hanner	yn agos 50%
Lleiafrif	islaw 40%
Rhai	islaw 20%
Ychydig iawn	llai na 10%

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Gradd 1** da gyda nodweddion rhagorol
- Gradd 2** nodweddion da a dim diffygion pwysig
- Gradd 3** nodweddion da'n gorbwyso diffygion
- Gradd 4** rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
- Gradd 5** llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **safonol**.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys	Tudalen
Cyd-destun	1
Crynodeb	2
Argymhellion	9
Safonau	9
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	9
Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant	13
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	13
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	14
Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	17
Arweinyddiaeth a rheolaeth	19
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	19
Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	21
Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	22
Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu	24
Cyfnod sylfaen	24
Cymraeg iaith cyntaf	29
Gwyddoniaeth	30
Dylunio a thechnoleg	31
Celf a dylunio	32
Cerddoriaeth	33
Ymateb yr ysgol i'r arolygiad	35
Atodiadau	36
1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	36
2 Data a dangosyddion ysgol	36
3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol	37
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad	39
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	39

Cyd-destun

Natur y darparwr

- 1 Lleolir Ysgol Gynradd Gymraeg Mynydd Bychan yn ardal Cathays o Gaerdydd ac fe'i cynhelir gan Awdurdod Addysg Caerdydd (AALI).
- 2 Mae'r dalgylch yn cynnwys maestrefi mewnol gogledd-ddwyrain Caerdydd, yn ymestyn o Gabalfa, Mynachdy, Y Waun, Heol Crwys, Heol y Ddinas i'r Bae. Daw tua 50% o'r disgyblion o ardaloedd preswyl a ddisgrifir gan yr ysgol fel rhai sydd heb fod yn ffyniannus nac o dan anfantais economaidd, ond mae'n dynodi bod 50% o'i disgyblion yn dod o ardal o dan anfantais economaidd. Cynrychiola'r disgyblion yr amrediad gallu llawn.
- 3 Mae gan 13.9% o'r disgyblion yr hawl i brydau bwyd am ddim, ffigwr sy'n is na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Nodir bod 38 disgybl, rhyw 15% yn rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae gan un disgybl ddatganiad o AAA.
- 4 Daw 9.2% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn iaith yr aelwyd, ond erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae'r mwyafrif helaeth yn siarad Cymraeg i lefel iaith gyntaf. Mae 4.7% o ddisgyblion o gefndir lleiafrifol ethnig. Siaredir Ffarsi ac Urdu gan ychydig o ddisgyblion nad yw'r Gymraeg na Saesneg yn famiaith ganddynt. Gwaharddwyd un disgybl yn ystod y deuddeg mis diwethaf.
- 5 Ar hyn o bryd mae 252 disgybl ar y gofrestr, gan gynnwys 50 o blant meithrin rhan amser. Mae nifer y disgyblion wedi aros yn debyg dros y tair blynedd diwethaf. Fe'u rhennir yn wyth o ddosbarthiadau yn cynnwys disgyblion yn yr un flwyddyn ysgol. Cyflogir 13 o athrawon ar hyn o bryd, gan gynnwys y pennaeth, a pum athrawes rhan amser.
- 6 Cafodd yr ysgol ei sefydlu yn yr adeilad presennol yn 1994 ar ôl dechrau mewn ystafell symudol yn 1993. Ychwanegwyd yn ddiweddar at y gofod addysgu a dysgu gydag estyniad sydd yn cynnwys swyddfeydd, cyfleusterau i'r anabl, ystafell gyfrifiaduron ac ystafelloedd cotiau. Mae'r adeilad mewn cyflwr da ar y cyfan.
- 7 Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Chwefror 2004. Penodwyd y pennaeth a'r dirprwy presennol ym Medi 2007.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

- 8 Blaenoriaethau'r ysgol yw :
 - sicrhau bod pob plentyn yn rhifog ac yn llythrennog yn y Gymraeg a'r Saesneg;
 - hyrwyddo a datblygu dwyieithrwydd;
 - sicrhau awyrgylch ddiogel, hapus a gofalgar i'r plant;
 - rhoi cyfle i bob disgybl ddatblygu i'w lawn botensial yn feddyliol, yn gorfforol, yn foesol, yn ysbrydol ac yn esthetig;
 - cynnig cyfle cyfartal i bawb;
 - annog pawb i ddangos parch at eiddo a phobl eraill;
 - addysgu pob plentyn i feddwl drosto'i hun, i weithio'n annibynnol a chydag eraill, a meithrin agweddau iach tuag at y gymuned a'r byd ehangach;

- pwysleisio pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi a bod yn drwsiadus bob amser, a
 - datblygu meddyliau bywiog ac ymholiadol gan hybu'r gallu i resymu, i ddadansoddi ac i drafod yn rhesymegol.
- 9 Blaenoriaethau'r ysgol am eleni yw:
- codi safonau cyfathrebu disgyblion ar draws yr ysgol;
 - addasu canllawiau gwaith yr ysgol i gyd-fynd â gofynion Cwricwlwm 2008;
 - gosod fframwaith y Cyfnod Sylfaen yn B1;
 - gwella sgiliau darllen a dehongli disgyblion yn drawsgwricwlaidd, a
 - defnyddio data sirol ac ysgol i wella effeithiolrwydd darpariaeth wahaniaethol ar gyfer disgyblion unigol.

Crynodeb

- 10 Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Mynydd Bychan yn ysgol dda gyda nodweddion rhagorol. Mae'r nodweddion rhagorol yn cynnwys arweiniad trwyadl y pennaeth a'r corff llywodraethol a'r cwricwlwm cyfoethog sydd yn darparu ystod o brofiadau dysgu symbylol. Caiff hyn ei atgyfnerthu gan gyfarwyddyd gofalgaf a rheolaeth effeithiol ac effeithlon o adnoddau dysgu. Ers yr arolygiad diwethaf mae'r ysgol wedi cynnal ansawdd uchel yr addysgu a'r safonau da a da iawn mewn llawer o'r pynciau.
- 11 Mae'r tîm yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu mewn pum cwestiwn allweddol, ond maent wedi dyfarnu gradd yn uwch i ddau gwestiwn. Mae'r tîm o'r farn bod yr ysgol wedi tanbriso ei heffeithiolrwydd yn ansawdd uchel yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a'r ddarpariaeth addysgol.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn Allweddol	Gradd arolygu
1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	2
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	1
3 Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	1
4 Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	1
5 Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	1
6 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	1
7 Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	1

Graddau ar gyfer y safonau yn y gwersi a arsylwyd yn ystod yr arolygiad

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
21%	79%	0%	0%	0%

- 12 Mae'r ffigurau hyn yn sylweddol uwch na'r canrannau cenedlaethol yn adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi (PAEM) ar gyfer 2008-2009 sef bod safonau mewn ysgolion yng Nghymru yn dda neu'n well (Gradd 1 a 2) mewn 85% o wersi ac yn rhagorol mewn 12%.

Graddau ar gyfer y meysydd dysgu a arolygwyd

	Meithrin	Derbyn
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannau	Gradd 1	Gradd 1
Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu	Gradd 1	Gradd 1
Datblygiad mathemategol	Gradd 1	Gradd 1
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Gradd 1	Gradd 1
Datblygiad corfforol	Gradd 1	Gradd1
Datblygiad creadigol	Gradd 1	Gradd 1
Cyfnod Sylfaen	Gradd 1	

- 13 At ei gilydd, mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen.

Graddau a ddyfernir yn y pynciau a arolygwyd

Maes arolygu	CA1	CA2
Cymraeg iaith gyntaf	Gradd 2	Gradd 2
Gwyddoniaeth	Gradd 2	Gradd 2
Dylunio a thechnoleg	Gradd 2	Gradd 2
Celf	Gradd 2	Gradd 1
Cerddoriaeth	Gradd 2	Gradd 2

- 14 Yng nghyfnod allweddol (CA) 1, yn yr asesiadau cenedlaethol yn 2009, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 2 (y lefel a ddisgwylir gan ddisgyblion sy'n saith oed) yn is na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol yn y Gymraeg ac mewn mathemateg ac yn debyg mewn gwyddoniaeth a'r dangosydd pwnc craidd (DPC). Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 3, sef y lefel uwch, yn sylweddol uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol yn y Gymraeg a mathemateg, ac ychydig yn uwch mewn gwyddoniaeth.
- 15 Yn CA2, mae canran y disgyblion sydd yn cyrraedd lefel 4 (y lefel a ddisgwylir gan ddisgyblion sy'n 11 oed) yn 2009 yn is na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol yn y pedwar pwnc craidd a'r DPC. Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 5 yn sylweddol uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol yn y Gymraeg a Saesneg, ac yn uwch mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Cafodd 57% o ddisgyblion Mynydd Bychan lefel 5 yn y Gymraeg a 47% lefel 5 yn Saesneg.
- 16 Er bod ychydig o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched yn y ddau gyfnod allweddol, nid yw'r gwahaniaeth yn arwyddocaol. Mae darpariaeth yr ysgol yn sicrhau bod bechgyn a merched fel ei gilydd yn llwyddo ac yn gwneud cynnydd da.
- 17 O gymharu gydag ysgolion tebyg sydd yn yr un grŵp prydau bwyd am ddim, mae canrannau'r ysgol yn CA1 yn y trydydd chwarter yn y Gymraeg, gwyddoniaeth a'r DPC ac yn y pedwerydd chwarter mewn mathemateg. O gymharu gydag ysgolion yn yr un teulu, mae canrannau'r ysgol yn debyg i gyfartaleddau'r teulu yn y Gymraeg ond ychydig yn is yn y ddau bwnc craidd

arall ac yn y DPC. Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 3 yn y tri phwnc craidd yn uwch na chanrannau'r teulu.

- 18 O gymharu gydag ysgolion tebyg sydd yn yr un grŵp prydau bwyd am ddim, mae canrannau'r ysgol yn CA2 yn y trydydd chwarter yn y Gymraeg a Saesneg a'r DPC, ac yn y pedwerydd chwarter mewn mathemateg a gwyddoniaeth. O gymharu gydag ysgolion yn yr un teulu, mae'r ysgol yn uwch na chyfartaleddau'r teulu yn y Gymraeg, yn is mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ac yn debyg yn y DPC. Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 5 yn y pedwar pwnc craidd yn uwch na chanrannau'r teulu.
- 19 Mae tueddiad canrannau disgyblion CA1 sydd yn cyrraedd o leiaf lefel 2 yn y Gymraeg, mathemateg, gwyddoniaeth a'r DPC dros y tair blynedd diwethaf wedi dangos gostyngiad ers 2007. Yng nghyfnod allweddol 2 mae tueddiad canrannau disgyblion sydd yn cyrraedd o leiaf lefel 4 yn y pedwar pwnc craidd a'r DPC yn dangos yr un patrwm dros y tair blynedd, ar wahân i wyddoniaeth sydd wedi gwella ers 2008, a'r DPC sydd wedi ei gynnal.
- 20 Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn gwneud cynnydd da, ac maent yn cyrraedd eu potensial. Yn gyffredinol mae disgyblion ag AAA yn gwneud cynnydd da, a cheir canran uchel o ddisgyblion mwy galluog sy'n cyrraedd lefelau uwch yn asesiadau'r athrawon o'r pynciau craidd. Mae disgyblion yn llwyddo beth bynnag yw eu cefndir, ac mae'r rhai sy'n dod o gefndir ethnig yn perfformio i'w rhagolygon disgwylidig. Ar ben CA2 maent yn barod i symud ymlaen i'r ysgol uwchradd.
- 21 Mae cynnydd a safonau plant dan bump yn y medrau allweddol iaith, y defnydd o rifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda iawn. At ei gilydd mae gan ddisgyblion CA1 a CA2 fedrau iaith a rhifedd da ond mae elfennau rhagorol yn eu defnydd o fedrau TGCh.
- 22 Mae medrau dwyieithog disgyblion yn nodwedd ragorol. Datblyga dysgwyr rhuglder cynyddol yn y ddwy iaith, a'r gallu i ddefnyddio gwybodaeth mewn un iaith ac ysgrifennu neu siarad amdani yn y llall. Mae medrau creadigol a medrau datrys problemau disgyblion hefyd yn rhagorol.
- 23 Ar draws y ddau gyfnod allweddol mae disgyblion yn gwybod beth yw'r targedau iaith a rhifedd a osodir ar eu cyfer mewn trafodaeth gyda'r athro, ac maent yn ymwybodol o beth sydd angen arnynt i wneud i wella eu gwaith.
- 24 Mae'r plant i gyd dan bump yn dangos cymhelliant eithriadol, ac mae agweddau disgyblion y ddau gyfnod allweddol at ddysgu a'r diddordeb sydd ganddynt yn eu gwaith yn dda, ac yn aml yn rhagorol. Mae dealltwriaeth disgyblion o gydraddoldeb ac amrywiaeth yn ardderchog.
- 25 Mae'r cynnydd a wna'r plant dan bump a disgyblion CA1 yn eu sgiliau o weithio'n annibynnol yn rhagorol ac yn gosod sylfaen dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Dengys disgyblion CA2 sgiliau gweithio'n annibynnol da ar draws ystod o weithgareddau grŵp, pâr, ac unigol, sydd yn atgyfnerthu'r medrau angenrheidiol i gynnal dysgu gydol oes. Mae'r cyngor ysgol, y pwyllgor eco a'r Criw Clên yn datblygu agweddau cyfrifol yn effeithiol iawn.
- 26 Mae ymddygiad ac ymagweddau'r disgyblion yn rhagorol. Maent yn ymateb yn ardderchog i ddisgwyliadau uchel eu hathrawon, ac i'r gweithdrefnau atgyfnerthu ymddygiad positif sydd yn rhan o fywyd yr ysgol.

- 27 Dros y tri thymor diwethaf, mae cyfradd presenoldeb disgyblion yn dda ac yn cyrraedd 94%. Mae'r canran hwn ychydig yn uwch na chanrannau lleol a chenedlaethol ar gyfer 2007-2008.
- 28 Datblyga plant dan bump ymwybyddiaeth dda iawn o fyd gwaith drwy chwarae rôl ac mae disgyblion CA1 a CA2 yn cynyddu'u dealltwriaeth drwy brofiad ymweliadau â busnesau lleol. Mae eu sgiliau entrepreneuriaidd yn datblygu'n effeithiol drwy werthu ffrwythau amser egwyl, cynnal stondin yn y Ffair Haf a hybu nwyddau masnach deg. Mae datblygiad y sgiliau hyn ynghyd â chysylltiadau amrywiol gyda'r gymuned leol yn sicrhau bod dysgwyr yn paratoi'n dda iawn i gymryd rhan effeithiol yn y gweithle a'r gymuned.

Ansawdd yr addysgu a'r hyfforddiant

Graddau ar gyfer addysgu

- 29 Barnwyd ansawdd yr addysgu yn y gwersi a arsylwyd yn ystod yr arolygiad fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
39%	61%	0%	0%	0%

- 30 Mae ansawdd yr addysgu yn rhagori ar yr ystadegau ar gyfer Cymru gyfan am 2008–2009, fel y cyhoeddwyd hwy yn Adroddiad Blynyddol PAEM, sef bod ansawdd yr addysgu yn genedlaethol yn Radd 1 neu 2 mewn 85% o wersi a Gradd 1 mewn 17% o wersi.
- 31 Mae'r athrawon a'r staff cynorthwyol wedi sefydlu perthynas waith rhagorol gyda'r disgyblion. Maent yn cymell disgyblion yn dda ac yn sicrhau cyfleoedd cyfartal i bob disgybl. Cydweithiant yn dda iawn i ddiwallu anghenion grwpiau ac unigolion, a manteisir ar bob cyfle i ddatblygu dwyieithrwydd disgyblion a'u dealltwriaeth o'r Cwricwlwm Cymreig.
- 32 Lle mae addysgu yn rhagorol ceir cynllunio a threfniadaeth dosbarth trylwyr iawn a disgyblion yn llawn weithredol yn y dysgu, tasgau heriol a diddorol, ac ymyrraeth brydlon athrawon i gefnogi ac ymestyn y dysgu. Gwneir defnydd effeithiol iawn o amrywiaeth o adnoddau pwrpasol, gan gynnwys y bwrdd gwyn rhyngweithiol, a strategaethau addysgu cyffrous er mwyn creu diddordeb ac annog dealltwriaeth disgyblion. Cynigir cyfleoedd bwriadus i hybu eu hiaith.
- 33 Lle mae'r addysgu yn dda mae'r gwersi wedi eu strwythuro'n dda, gan sicrhau eu bod yn cysylltu'n ystyrlon gyda'r dysgu blaenorol. Maent yn llifo ar gyflymder da, ac yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion gyd-drafod, cydweithio, arsylwi ac ymchwilio. Rhoddir model iaith effeithiol i ddisgyblion ac mae athrawon yn gwneud defnydd da o holi i ysgogi disgyblion i gyfathrebu, rhagfynegi a datblygu eu sgiliau meddwl. Mae athrawon yn meithrin annibyniaeth disgyblion yn dda ac yn gwneud defnydd da o sesiynau cloi i werthuso'r dysgu.
- 34 Mae ansawdd yr asesu yn rhagorol. Mae'r asesiadau'n gywir a chyson ac yn cwrdd â gofynion statudol, gan gynnwys y rhai ar gyfer AAA.
- 35 Gwelir nodweddion rhagorol yn y drefn arsylwi a chofnodi cynnydd a chyflawniad plant unigol yn y Cyfnod Sylfaen. Caiff gwaith disgyblion CA1 a CA2 yn y pynciau craidd ei asesu mewn ffordd systematig a rheolaidd. Gwneir defnydd pwrpasol o ystod o brofion safonol ac asesiadau ar gyfer tracio cynnydd pob disgybl ac i gyfeirio'r cynllunio ar eu cyfer.

- 36 Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn ganolog i weithdrefnau asesu'r ysgol ac mae disgyblion yn gynyddol yn cymryd rhan mewn arfarniad o'u dysgu eu hunain a pherfformiad eu cyfoedion. Trafodant eu targedau gyda'i gilydd a gyda'u hathrawon.
- 37 Mae ansawdd marcio gwaith disgyblion yn cynnwys sylwadau anogol ac yn rhoi arweiniad i'r disgyblion ar sut allant wella ansawdd eu gwaith.
- 38 Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni o ansawdd uchel ac yn nodi cyflawniad a medrau disgyblion ymhob pwnc. Maent yn cydymffurfio'n llawn â gofynion statudol. Gosodir targedau ar gyfer datblygiad pellach, a chaiff rhieni gyfle i ymateb i'r sylwadau yn ysgrifenedig.
- 39 Darperir mynediad cyfartal i gwricwlwm sy'n eang, yn gytbwys ac yn berthnasol, ac sy'n bodloni'r holl ofynion statudol. Mae cynllunio gofalus i gwricwlwm y plant dan bump yn sicrhau bod y Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno'n effeithiol iawn. Mae'r cynllunio ar gyfer cwricwlwm CA1 yn dechrau datblygu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn dda. Gwneir cynnydd rhagorol yn y cynllunio ar gyfer cwricwlwm newydd CA2 i sicrhau cydlynedd a dilyniant yn natblygiad gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau disgyblion.
- 40 Ceir polisiâu a gweithdrefnau da ar gyfer datblygu medrau allweddol cyfathrebu, rhifedd a TGCh. Rhoddir pwyslais llwyddiannus iawn ar ddatblygu sgiliau meddwl, sgiliau datrys problemau a sgiliau gweithio'n annibynnol drwy hyrwyddo strategaethau 'Dysgu i Ddysgu'. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer datblygu sgiliau creadigol dysgwyr yn effeithiol.
- 41 Caiff medrau dwyieithog eu hyrwyddo'n effeithiol iawn a rhoddir sylw rhagorol i ddatblygiad ymwybyddiaeth y disgyblion o'r Cwricwlwm Cymreig ar draws y cwricwlwm ac mewn digwyddiadau penodol fel yr 'ŵyl Gymreig'. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg am ddiwylliannau eraill a dinasyddiaeth fyd-eang hefyd yn ardderchog.
- 42 Cyfoethogir y profiadau dysgu yn dda iawn gan amrywiaeth o ymwelwyr ac ymweliadau. Trefnir ystod eang o weithgareddau allgyrsiol amser cinio a thu allan i oriau'r ysgol sy'n cyfrannu'n rhagorol at ddatblygiad cymdeithasol disgyblion.
- 43 Mae gan yr ysgol raglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) gyflawn sy'n cynnwys 'Cylch o Ffrindiau' ac agweddau sy'n treiddio'r cwricwlwm i gyd. Mae'r addoli ar y cyd dyddiol yn gwneud cyfraniad effeithiol iawn i ddatblygiad ysbrydol y disgyblion, ac mae'r negeseuon moesol yn treiddio drwy holl ddarpariaeth yr ysgol.
- 44 Mae'r cwricwlwm yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol megis addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a cheir pwyslais amlwg ar adfer, ail-ddefnyddio ac ailgylchu a pheidio â gwastraffu ynni. Drwy bartneriaeth yr ysgol gyda'r prosiect 'Ysgolion Rhyngwladol' mae hawliau plant yn cael proffil uchel.
- 45 Mae partneriaethau'r ysgol yn llwyddiannus ac yn cynnwys nodweddion rhagorol. Mae partneriaeth yr ysgol gyda'r ysgol uwchradd o safon uchel iawn ac mae gweithdrefnau trosglwyddo disgyblion yn rhagorol. Cyfranna'r bartneriaeth gadarnhaol iawn gydag ysgolion eraill y teulu at ddatblygiad ystod o fentrau. Mae partneriaethau gyda sefydliadau addysg uwch hefyd yn ardderchog.

- 46 Mae'r rheini yn frwdfrydig iawn am eu partneriaethau gyda'r ysgol. Mae nifer ohonynt yn helpu gyda gweithgareddau'r ysgol, a gweithia'r gymdeithas rieni ac athrawon (CRA) yn ymroddgar i gynnal rhaglen lawn o ddiwyddiadau cymdeithasol a chodi arian. Mae nodweddion rhagorol i bartneriaethau'r ysgol gyda'r gymuned.
- 47 Mae'r cyfleoedd ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o fyd gwaith yn elfen gref o'r ddarpariaeth addysgol, gan gynnwys ystod o ymweliadau a chysylltiadau â busnesau lleol, rheoli siop ffrwythau, gwerthu ar stondin yn y Ffair Haf, a hybu nwyddau masnach deg. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn nodi mentergarwch ar gyfer datblygiad pellach.
- 48 Mae trefniadau gofal yr ysgol wedi'u cynllunio'n fanwl ac yn effeithiol iawn. Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Gwneir defnydd rhagorol o wasanaethau ac asiantaethau lles er mwyn helpu'r disgyblion i gyd, gan gynnwys y rhai ag AAA. Mae gan rieni hyder cryf yn y gofal a estynnir i'w plant.
- 49 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn rhagorol ac yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Cod Ymarfer. Caiff anghenion eu darganfod yn fuan, ac mae'r gefnogaeth a ddarperir gan yr athrawes gefnogi a'r cymorthyddion yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ôl eu gallu a'u hamgylchiadau unigol.
- 50 Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer hybu ymddygiad da yn ardderchog, a cheir mesurau effeithiol i gefnogi disgyblion ag anghenion ymddygiad unigol. Trefnir diwrnod gwrth-fwlio llwyddiannus gan y cyngor ysgol. Hyrwyddir cyfleoedd cyfartal a chydardoldeb hiliol yn effeithiol iawn trwy drefnu ymweliadau gan rieni o wahanol gefndiroedd hiliol. Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb a phrydlondeb yn drylwyr. Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer monitro gwaith disgyblion yn gynhwysfawr, yn drylwyr ac yn ddefnyddiol iawn.
- 51 Mae'r ysgol yn sicrhau lles pob disgybl. Rheolir trefniadau amddiffyn plant yn effeithiol ac maent yn gyfarwydd i bawb sy'n gweithio yn yr ysgol. Maent yn cwrdd â gofynion statudol.
- 52 Mae trefniadau rhagorol yn bodoli er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch disgyblion. Cynhelir asesiadau risg yn ofalus ar gyfer ymweliadau ysgol a gwaith maes. Mae'r ysgol yn annog disgyblion i gadw'n iach drwy hyrwyddo gweithgareddau corfforol a bwyta'n iach, a chyd-weithia'r ysgol gydag ystod o asiantaethau i gynnal Wythnos Iechyd a Ffitrwydd i ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o fwyta a byw'n iach.
- 53 Er bod yr ysgol ar ddau lawr, mae'r lifft a'r addasiadau eraill yn ei gwneud yn hygyrch i ddisgyblion gydag anabledau corfforol. Mae'r cynllunio ar gyfer sicrhau nad ydynt o dan unrhyw anfantais yn dda iawn ac yn bodloni gofynion statudol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 54 Mae gan yr ysgol nodau ac amcanion cytûn sy'n hyrwyddo cydraddoldeb i bawb ac sy'n cael eu hadlewyrchu ym mhob agwedd o waith yr ysgol. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir am gyfeiriad yr ysgol ac mae'n hyrwyddo safonau uchel. Mae ei hymrwymiad i sicrhau cymuned ysgol lle mae pob unigolyn yn cael yr un cyfle i ddatblygu doniau unigol, yn rhoi sail gadarn i ddarpariaeth gyfoethog yr ysgol.

- 55 Caiff ei chefnogi yn rhagorol gan y dirprwy a'r uwch dîm rheoli (UDRh), ac mae'r cydlynwyr pwnc yn darparu arweiniad da iawn i'w cyd-athrawon. Mae ganddynt wybodaeth glir am y safonau a gyflawnir drwy fonitro rheolaidd a thrylwyr. Mae cydweithio tîm ardderchog yn nodweddiadol o arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol.
- 56 Rhydd yr ysgol ystyriaeth ganmoladwy i flaenoriaethau cenedlaethol, sirol a mewnlun, ac mae'r cynllun datblygu ysgol (CDY) yn ddogfen glir a phwrpasol sy'n gosod targedau a nodau heriol. Mae polisi a gweithdrefnau rheoli perfformiad yn effeithiol iawn a chaiff gofynion hyfforddi staff eu hadnabod a'u diwallu mewn modd trefnus a pherthnasol. Mae hyn yn cyfrannu'n helaeth at eu datblygiad proffesiynol parhaus, ac at ansawdd y ddarpariaeth addysgol.
- 57 Cyflawna aelodau'r corff llywodraethol eu dyletswyddau yn gydwybodol, a gweithiant yn effeithiol iawn gyda'r pennaeth i helpu gosod cyfeiriad strategol i'r ysgol. Mae llywodraethwyr yn bodloni gofynion statudol yn llawn.
- 58 Mae diwylliant o hunan arfarnu wedi'i sefydlu yn dda iawn yn yr ysgol. Defnyddia'r arweinwyr a'r rheolwyr amrywiaeth o dulliau er mwyn casglu gwybodaeth am berfformiad yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiad manwl o ganlyniadau'r waelodlin ac o asesiadau athrawon o'r cwricwlwm cenedlaethol (CC) ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol. Maent hefyd yn monitro cynlluniau, arsylwi gwersi a thrafod gwaith disgyblion. Caiff barn rhieni a disgyblion ei hystyried yn rhan bwysig o'r broses hunan arfarnu. Mae'r llywodraethwyr yn trafod canlyniadau'r ysgol a'r targedau yn drylwyr, ac mae ganddynt gyswllt uniongyrchol gyda'r cydlynwyr pwnc er mwyn monitro safonau a darpariaeth.
- 59 Mae'r CDY yn ddogfen strategol sy'n nodi nifer cynhwysfawr o flaenoriaethau perthnasol. Ceir cyswllt clir rhwng rhain a'r broses hunan arfarnu. Mae'r targedau manwl, tasgau wedi'u cynllunio'n strategol, meini prawf llwyddiant a'r dulliau gwerthuso yn amlygu ffocws clir sy'n sicrhau effeithiolrwydd.
- 60 Mae'r cynnydd a wnaed gan yr ysgol ers yr arolygiad diwethaf yn dda.
- 61 Ceir cyflenwad da iawn o staff, sydd yn diweddarau eu gwybodaeth a'u medrau drwy hyfforddiant perthnasol yn rheolaidd. Gwneir defnydd effeithiol iawn o'u harbenigedd i gyfoethogi'r ddarpariaeth gwricwlaidd, er enghraifft mewn cerddoriaeth ac addysg grefyddol. Datblyga arweinwyr cwricwlwm eu pynciau a'u meysydd dysgu mewn modd canmoladwy, a chydweithia staff cynorthwyol yn eithriadol gyda'r athrawon i gyflawni eu cyfrifoldebau ac i gyfoethogi'r ddarpariaeth allgyrsiol.
- 62 Gwna'r ysgol ddefnydd rhagorol o'r adeilad sydd mewn cyflwr da ar y cyfan. Mae'n darparu gofod addysgu digonol yn yr ystafelloedd dosbarth a'r ardaloedd y tu allan iddynt, yn y neuadd, y llyfrgell, yr ystafell gyfrifiaduron a'r ystafell gerdd. Mae'r ystafelloedd meithrin a derbyn yn darparu lle deniadol i gynllunio profiadau dysgu gwerthfawr i'r plant dan bump a gwneir defnydd dychmygol iawn o ardal allanol yr ysgol. Mae gan bob dosbarth yn y Cyfnod Sylfaen a CA1 fynediad uniongyrchol i'r ardal allanol.
- 63 Gwna'r ysgol ddefnydd creadigol iawn o'r ardal allanol gyfyng er mwyn darparu dosbarth allanol i'r dosbarthiadau meithrin, derbyn, B1 a B2, pwl dŵr, gardd ysgol ac iard ar gyfer chwaraeon ac addysg gorfforol.

- 64 Ceir ystod ragorol o adnoddau i gefnogi'r cwricwlwm, ac mae'r defnydd a wneir ohonynt yn effeithiol ac yn effeithlon iawn.
- 65 Caiff y defnydd o'r gyllideb ei fonitro'n rheolaidd ac yn effeithiol gan y pennaeth a'r corff llywodraethol.
- 66 Gan ystyried cyfraniad yr addysgu ardderchog, datblygiad rhagorol y ddarpariaeth gwricwlaidd, yr ethos gofalgarg, ffocws clir arweinyddiaeth a rheoli ar godi safonau, a defnydd effeithiol iawn o ystod eang o adnoddau trefnus, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da iawn am arian.

Argymhellion

- 67 Er mwyn symud yr ysgol ymlaen, mae angen i'r staff a'r corff llywodraethol:
- A1 cynnal a chadw'r safonau da a rhagorol cyfredol;
- A2 pharhau i rannu'r arferion addysgu ac asesu rhagorol sy'n bodoli yn yr ysgol, a
- A3 pharhau i ymestyn gweithdrefnau llwyddiannus y Cyfnod Sylfaen i B1 a B2.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, yn cael ei ddsbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 68 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

Graddau ar gyfer y safonau yn y gwersi a arsylwyd yn ystod yr arolygiad

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
21%	79%	0%	0%	0%

- 69 Mae'r ffigurau hyn yn sylweddol uwch na'r canrannau cenedlaethol yn adroddiad blynyddol PAEM ar gyfer 2008-2009 sef bod safonau mewn ysgolion yng Nghymru yn dda neu'n well (Gradd 1 a 2) mewn 85% o wersi ac yn rhagorol mewn 12%.

Graddau ar gyfer y meysydd dysgu a arolygwyd

	Meithrin	Derbyn
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannau	Gradd 1	Gradd 1
Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu	Gradd 1	Gradd 1
Datblygiad mathemategol	Gradd 1	Gradd 1
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Gradd 1	Gradd 1
Datblygiad creadigol	Gradd 1	Gradd 1
Datblygiad corfforol	Gradd 1	Gradd 1
Cyfnod Sylfaen	Gradd 1	

- 70 At ei gilydd, mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen.

Graddau a ddyfernir yn y pynciau a arolygwyd

Maes arolygu	CA1	CA2
Cymraeg	Gradd 2	Gradd 2
Gwyddoniaeth	Gradd 2	Gradd 2
Dylunio a Thechnoleg	Gradd 2	Gradd 2
Celf	Gradd 2	Gradd 1
Cerddoriaeth	Gradd 2	Gradd 2

- 71 Yn CA1, yn yr asesiadau cenedlaethol yn 2009, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 2 (y lefel a ddisgwylir gan ddisgyblion sy'n saith oed) yn is na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol yn y Gymraeg ac mewn mathemateg ac yn debyg mewn gwyddoniaeth a'r dangosydd pwnc craidd (DPC). Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 3, sef y lefel uwch, yn sylweddol uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol yn y Gymraeg a mathemateg, ac ychydig yn uwch mewn gwyddoniaeth.
- 72 Yn CA2, mae canran y disgyblion sydd yn cyrraedd lefel 4 (y lefel a ddisgwylir gan ddisgyblion sy'n 11 oed) yn 2009 yn is na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol yn y pedwar pwnc craidd a'r DPC. Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 5 yn sylweddol uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol yn y Gymraeg a Saesneg, ac yn uwch mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Cafodd 57% o ddisgyblion Mynydd Bychan lefel 5 yn y Gymraeg a 47% lefel 5 yn Saesneg.
- 73 Er bod ychydig o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched yn y ddau gyfnod allweddol, nid yw'r gwahaniaeth yn arwyddocaol. Mae darpariaeth yr ysgol yn sicrhau bod bechgyn a merched fel ei gilydd yn llwyddo ac yn gwneud cynnydd da.
- 74 O gymharu gydag ysgolion tebyg sydd yn yr un grŵp prydau bwyd am ddim, mae canrannau'r ysgol yn CA1 yn y trydydd chwarter yn y Gymraeg, gwyddoniaeth a'r DPC ac yn y pedwerydd chwarter mewn mathemateg. O gymharu gydag ysgolion yn yr un teulu, mae canrannau'r ysgol yn debyg i gyfartaleddau'r teulu yn y Gymraeg ond ychydig yn is yn y ddau bwnc craidd arall ac yn y DPC. Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 3 yn y tri phwnc craidd yn uwch na chanrannau'r teulu.
- 75 O gymharu gydag ysgolion tebyg sydd yn yr un grŵp prydau bwyd am ddim mae canrannau'r ysgol yn CA2 yn y trydydd chwarter yn y Gymraeg a Saesneg a'r DPC, ac yn y pedwerydd chwarter mewn mathemateg a gwyddoniaeth. O gymharu gydag ysgolion yn yr un teulu, mae cyfartaleddau'r ysgol yn uwch na rhai'r teulu yn y Gymraeg, yn is mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ac yn debyg yn y DPC. Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 5 yn y pedwar pwnc craidd yn uwch na chanrannau'r teulu.
- 76 Mae tueddiad canrannau disgyblion CA1 sydd yn cyrraedd o leiaf lefel 2 yn y Gymraeg, mathemateg, gwyddoniaeth a'r DPC dros y tair blynedd diwethaf wedi dangos gostyngiad ers 2007. Yn CA2, mae tueddiad canrannau disgyblion sydd yn cyrraedd o leiaf lefel 4 yn y pedwar pwnc craidd a'r DPC yn dangos yr un

patrwm dros y tair blynedd, ar wahân i wyddoniaeth sydd wedi gwella ers 2008, a'r DPC sydd wedi ei gynnal.

- 77 Mae disgyblion CA1 yn deall yn dda beth yw'r targedau personol o osodir gan eu hathrawon, ac yn gwybod pan maent wedi'u cyflawni. Llwydda disgyblion CA2 gyd-osod targedau gyda'r athrawon yn gyson, gan eu hadolygu a'u hail-osod wrth eu cyflawni. Maent yn cynnig gwerthusiadau ystyrion wrth asesu eu dysgu trwy gydol y wers, ac mae eu gallu i arfarnu eu gwaith a gwaith eu cyfoedion yn datblygu'n dda. Mae disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn cyrraedd y targedau statudol heriol a realistig a osodir ar eu cyfer erbyn diwedd y cyfnod.
- 78 Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn gwneud cynnydd da o safbwynt eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau ac maent yn cyrraedd eu potensial. Yn gyffredinol mae disgyblion ag AAA yn gwneud cynnydd da, a cheir canran uchel o ddisgyblion mwy galluog sy'n cyrraedd lefelau uwch yn asesiadau'r athrawon o'r pynciau craidd. Mae disgyblion yn llwyddo beth bynnag yw eu cefndir, ac mae'r rhai o gefndir ethnig yn perfformio i'w rhagolygon disgwylidig. Ar ben CA2 mae disgyblion yn barod i symud ymlaen i'r ysgol uwchradd.
- 79 Mae safonau yn y medrau cyfathrebu yn dda yn gyffredinol. Mae gan y plant dan bump fedrau cyfathrebu sy'n gyson dda, ac yn aml yn dda iawn, ac sy'n gosod seiliau cadarn i'w haddysg. Ar draws y cyfnodau allweddol mae disgyblion yn ymateb yn dda i gwestiynu a thrafodaeth y sesiynau cyflwyno a chloi mewn gwersi, a gallant fynegi barn yn glir mewn ystod o bynciau. Darllenant ystod o destunau yn dda yn ôl eu hoedran a'u gallu yn y Gymraeg yn CA1 ac yn y ddwy iaith yn CA2. Mae gan y disgyblion galluog iawn uwch sgiliau darllen rhagorol yn y ddau gyfnod allweddol sydd yn eu galluogi i drafod ystod o lyfrau gan yr un awdur a gan awduron gwahanol. Mae eu medrau ysgrifennu yn dda yn y Gymraeg yn CA1 ac yn y Gymraeg a'r Saesneg yn CA2. Ceir nifer o enghreifftiau o waith ysgrifennu estynedig at ystod eang o bwrpasau yn y ddwy iaith yn CA2.
- 80 Yn y Cyfnod Sylfaen mae medrau allweddol rhifedd a TGCh yn gyson dda ac yn aml yn dda iawn, ac mae'r plant dan bump yn eu defnyddio yn rheolaidd yn eu gwersi ac mewn gweithgareddau eraill. Maent yn datblygu sgiliau TGCh da wrth ddefnyddio cyfrifiaduron i chwarae gemau iaith a rhifedd a thynnu lluniau. Gallant ddefnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol, camerâu digidol, a 'Bee-bot' yn hyderus, a chasglu gwybodaeth o'r we. Mae ganddynt sgiliau rhifedd da iawn wrth ganu caneuon a rhigymau, adnabod y dyddiad, cyflawni prosesau syml gwaith pen yn ogystal ag ymarfer pwysu a mesur.
- 81 Yn CA1 a CA2, mae defnydd disgyblion o fedrau TGCh ar draws y cwricwlwm yn rhagorol. Gwelwyd enghreifftiau o ddisgyblion yn prosesu geiriau, trin data a'i gyflwyno mewn amrywiaeth o ffyrdd, chwarae gemau rhif ac iaith, tynnu lluniau a defnyddio'r rhyngwyd i chwilio am wybodaeth yn yr ystafell gyfrifiaduron ac mewn gwersi a arsylwyd. Defnyddir medrau rhifedd yn dda mewn gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg, hanes a cherdd i gyflwyno gwaith ar ffurf graffiau bar, bloc a llinell, tablau a llinellau amser.
- 82 Mae medrau dwyieithog y disgyblion yn ardderchog. Er bod y rhan fwyaf o'r plant dan bump yn dod o gartrefi di-Gymraeg, maent yn caffael y Gymraeg yn gyflym. Yn CA1, mae disgyblion yn datblygu medrau Cymraeg yn dda ac ar

draws CA2 mae disgyblion yn gysurus yn siarad y ddwy iaith mewn gwersi ar draws y cwricwlwm.

- 83 Mae'r plant i gyd dan bump yn dangos cymhelliant ardderchog. Maent yn gwranddo'n astud ar gyflwyniadau athrawon a staff cynorthwyol, ac yn datblygu lefel uchel o ddiddordeb yn eu tasgau. Llwydda disgyblion CA1 ganolbwyntio'n dda iawn ac maent yn gweithio ar eu tasgau gyda brwdfrydedd a dyfalbarhad. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion CA2 yn gweithio gyda lefelau uchel o gymhelliant, er bod ambell unigolyn yn ei chael yn anodd cadw ar dasg drwy gydol y wers. Gweithia'r rhan fwyaf ar dasgau amrywiol fesul grŵp neu bâr neu yn unigol gyda brwdfrydedd a diddordeb.
- 84 Mae medrau personol, cymdeithasol a moesol disgyblion yn rhagorol. Mae disgyblion drwy'r ysgol yn ymddwyn yn gyfeillgar ac yn gwrtais i'w gilydd yn y gwersi, wrth symud o gwmpas yr ysgol, yn y neuadd amser cinio ac yn y buarth, ac mewn sesiynau addoli ar y cyd. Maent yn dangos parch i holl oedolion yr ysgol ac i ymwelwyr. Mae'r disgyblion yn gwybod beth yw rheolau'r ysgol ac yn eu cadw. Caiff ymdrech ac ymddygiad da eu cymeradwyo, a'u gwobrwyo mewn gwasanaethau penodol.
- 85 Dros y tri thymor diwethaf, mae cyfradd presenoldeb disgyblion yn 94% ac ychydig yn uwch na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae'r rhieni yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb ynglŷn â phresenoldeb a phrydlondeb, ac mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon ar ddechrau'r dydd.
- 86 Mae datblygiad gallu plant dan bump a disgyblion CA1 i weithio'n annibynnol yn ardderchog, drwy gyfleoedd i wneud dewisiadau, cymryd perchnogaeth am ystod o dasgau dosbarth a chyflawni gweithgareddau hunangynhaliol a drefnir ar eu cyfer. Mae disgyblion CA2 yn gyffredinol yn elwa'n dda o'r cyfleoedd i weithio'n annibynnol yn unigol ac mewn grŵp. Mae gallu'r disgyblion drwy'r ysgol i ddatrys problemau yn dda iawn ar draws y meysydd dysgu ac mewn ystod o bynciau, ond yn arbennig mewn gwersi CAME (Cognitive Acceleration in Mathematics Education) a CELIPS(Cardiff Effective Learning in Primary Science).
- 87 Mae disgyblion yn gwneud cynnydd ardderchog yn eu sgiliau personol, cymdeithasol a moesol drwy elwa o wersi ABCh a sesiynau 'Cylch o Ffrindiau'. Mae gan rai disgyblion gyfrifoldebau penodol sydd yn datblygu sgiliau da drwy ddysgu sut i gynrychioli cyfoedion ar y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco a gweithredu fel y Criw Clên. Yn gyffredinol mae disgyblion yn barod iawn i gymryd cyfrifoldeb dros eu cyd-ddisgyblion ac am amgylchedd yr ysgol mewn ystod o gyd-destunau.
- 88 Wrth chwarae rôl yn siop y fferm, yr orsaf golchi ceir, gorsaf yr heddlu a'r filfeddygfa mae'r plant dan bump yn dysgu'n effeithiol am fyd gwaith. Mae dealltwriaeth dda disgyblion CA1 a CA2 o fyd gwaith yn deillio o'r ymweliadau â busnesau lleol. Mae sgiliau entrepreneuriaeth disgyblion CA2 yn dechrau datblygu'n briodol drwy werthu ffrwythau amser egwyl, hybu nwyddau masnach deg a pharatoi ar gyfer gwerthu yn y ffair haf. Maent yn paratoi yn dda i gymryd rhan yn y gymuned trwy'u cysylltiadau niferus gyda chapeli ac eglwysi lleol, cartrefi henoed, ysgolion lleol a gydag aelodau unigol o'r gymuned. Mae'r cysylltiadau hyn gyda'r ardal yn eu paratoi yn dda iawn am chwarae rhan effeithiol yn y gweithle a'r gymuned.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

89 Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu, gan i'r ysgol ddyfarnu Gradd 2 i'r cwestiwn hwn. Mae'r tîm yn ystyried bod nifer o nodweddion rhagorol yn ansawdd yr addysgu.

90 Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
39%	61%	0%	0%	0%

91 Mae ansawdd yr addysgu yn rhagori ar yr ystadegau ar gyfer Cymru gyfan am 2008-2009, fel y cyhoeddwyd hwy yn Adroddiad Blynyddol PAEM, sef bod ansawdd yr addysgu yn genedlaethol yn Radd 1 neu 2 mewn 85% o wersi a Gradd 1 mewn 17% o wersi.

92 Mae athrawon yn cymell disgyblion yn dda ac mae perthynas waith rhagorol rhwng y staff a'r disgyblion drwy'r ysgol, yn hyrwyddo dysgu effeithiol iawn ac yn sicrhau cyfleoedd cyfartal i bob disgybl. Gwna'r cymorthyddion dysgu gyfraniad da iawn at ansawdd yr addysgu a'r dysgu, drwy roi cefnogaeth i ddiwallu anghenion grwpiau ac unigolion.

93 Mae'r ysgol yn cwrdd ag anghenion ieithyddol y dysgwyr yn rhagorol yn ei darpariaeth addysgu a hyfforddi dwyieithog. Manteisir ar bob cyfle i ddatblygu'r Cwricwlwm Cymraeg o fewn pynciau ynghyd â chynnig cyfle i ddisgyblion hŷn elwa o wersi mewn trydedd iaith.

94 Lle dyfarnwyd Gradd 1 i'r addysgu, mae:

- cynllunio a threfniadaeth ddosbarth ragorol a disgyblion yn llawn weithredol yn y dysgu;
- gosod tasgau heriol a diddorol ac ymyrraeth brydlon yr athro wrth i ddisgyblion gwblhau'r tasgau yn nodweddiadol;
- defnydd effeithiol iawn o adnoddau pwrpasol yn cynnwys y bwrdd gwyn rhyngweithiol i symbylu, creu diddordeb ac atgyfnerthu'r dysgu;
- defnydd o strategaethau addysgu amrywiol a chyffrous er mwyn annog dealltwriaeth ac ymestyn y dysgu; a
- defnydd o ddulliau strwythuredig, llwyddiannus i hybu iaith disgyblion.

95 Lle dyfarnwyd Gradd 2 i'r addysgu, mae:

- gwersi wedi'u trefnu'n dda ar gyfer gwahanol oed a gallu ac yn adeiladu ar waith blaenorol;
- gwersi yn llifo ar gyflymder da;
- gwersi yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion gyd-drafod, cydweithio, arsylwi ac ymchwilio;
- annibyniaeth disgyblion yn dda yn cael ei meithrin yn dda;
- prysurdeb yn nodweddiadol amlwg yn y dysgu;
- yr athrawon yn fodolau rôl effeithiol wrth gyflwyno ac ymestyn iaith disgyblion;
- holi da sy'n ysgogi disgyblion i gyfathrebu, rhagfynegi a datblygu eu sgiliau meddwl; a
- defnydd da o sesiynau cloi i werthuso'r dysgu.

- 96 Mae ansawdd yr asesu yn rhagorol. Mae'r asesiadau'n gywir a chyson ac yn cwrdd â gofynion statudol, gan gynnwys y rhai ar gyfer AAA. Mae'r athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda iawn. Caiff asesiadau eu cofnodi a'u defnyddio'n gyson i lywio'r cynllunio ac i osod targedau pwrpasol.
- 97 Gwneir defnydd effeithiol iawn o dystiolaeth yr asesiad gwaelodlin, ac mae'r drefn arsylwi a chofnodi cynnydd a chyflawniad plant unigol yn y Cyfnod Sylfaen yn ardderchog.
- 98 Mae systemau hynod o drylwyr yn cael eu gweithredu i sicrhau y caiff y pynciau eu hasesu mewn ffordd systematig a rheolaidd. Gwneir defnydd pwrpasol o ystod o brofion ac asesiadau a sefydlwyd trefn fanwl gyson ymhob dosbarth ar gyfer tracio cynnydd pob disgybl drwy gydol ei yrfa yn yr ysgol.
- 99 Mewn cydweithrediad gyda chydlynwyr o'r teulu o ysgolion, paratowyd portffolios o waith disgyblion wedi'u safoni a'u cymedroli er mwyn cynorthwyo cysondeb yr asesu.
- 100 Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn ganolog i weithdrefnau asesu'r ysgol ac mae disgyblion yn gynyddol yn cymryd rhan mewn arfarniad o'u dysgu eu hunain a pherfformiad eu cyfoedion. Trafodant eu targedau gyda'i gilydd a gyda'u hathrawon sy'n eu hysgogi i ymdrechu'n galetach.
- 101 Mae ansawdd marcio gwaith disgyblion yn cynnwys sylwadau anogol ac yn rhoi arweiniad i'r disgyblion ar sut allant wella ansawdd eu gwaith. Caiff disgyblion hŷn y cyfle i ymateb a gwerthuso gwaith eu hunain mewn asesiadau tymhorol.
- 102 Gwahoddir rhieni i drafod addysg, datblygiad a thargedau eu plant bedair gwaith y flwyddyn, sy'n nodwedd ragorol. Mae ansawdd yr adroddiadau blynyddol i rieni yn ardderchog ac yn nodi cyflawniad a medrau disgyblion ymhob pwnc, sy'n cydymffurfio'n llawn â gofynion statudol. Gosodir targedau ar gyfer datblygiad pellach, a chaiff rhieni gyfle i ymateb i'r sylwadau yn ysgrifenedig.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

- 103 Mae'r tîm arolygu yn cytuno â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu ar gyfer y cwestiwn allweddol yma.
- 104 Mae'r nodweddion rhagorol yn y cwestiwn allweddol yma yn cynnwys:
- ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer y cyfnod sylfaen;
 - cyfoethogrwydd a pherthnasedd y profiadau dysgu yn CA1 a CA2;
 - y cyfraniad a wna ymwelwyr, ymweliadau addysgol a gweithgareddau allgyrsiol i brofiadau dysgu;
 - y profiadau a ddarperir ar gyfer hyrwyddo dwyieithrwydd a'r Cwricwlwm Cymreig;
 - y ddarpariaeth ar gyfer ABCCh gan gynnwys y ffocws ar ddatblygiad ysbrydol a moesol a diwylliannol y dysgwyr; a
 - natur cysylltiadau'r ysgol gyda rhieni, y gymuned ac ysgolion eraill
- 105 Mae'r ysgol yn darparu mynediad cyfartal i gwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol ar gyfer y meysydd dysgu, y CC a Chwricwlwm 2008. Bodlonir yr

holl ofynion statudol sydd ynghlwm wrth addoli ar y cyd, dogfennaeth ysgol a threfniant dosrannu amser ar gyfer yr holl feysydd a phynciau a addysgir.

- 106 Mae'r cynllunio ar gyfer y plant dan bump, pynciau'r CC a'r cwricwlwm newydd ar gyfer CA2 yn sicrhau dilyniant a pharhad ar draws yr ysgol. Rhydd arweiniad da i'r athrawon, a chânt eu hadolygu a'u mireinio'n gyson. Mae cynlluniau gwersi unigol yn glir a phwrpasol.
- 107 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y plant dan bump yn cyflwyno egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn rhagorol, a gwneir defnydd ardderchog o'r dosbarthiadau a'r ardal allanol i gynnig profiadau eithriadol o gyfoethog y plant ieuengaf. Mae'r ysgol yn cwrdd â dyheadau dysgwyr yn dda iawn yn CA1 a CA2. Cynigir profiadau cyfoethog yn y ddau gyfnod sy'n seiliedig ar weithgareddau diddorol, cyffrous a heriol. Drwy'r cwricwlwm datblygir gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion yn dda iawn. Mae gweithdrefnau ar gyfer addasu'r cwricwlwm yn CA2 i gwrdd â gofynion y fframwaith sgiliau yn datblygu'n dda iawn.
- 108 Ceir polisi a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn datblygu'r medrau allweddol, ac mae gan y cynllunio tymor byr ffocws clir ar y medrau hyn. Rhoddir blaenoriaeth ar ddarparu cyfleoedd da iawn ar gyfer datblygu sgiliau meddwl a sgiliau datrys problemau. Hyrwyddir sgiliau creadigol y disgyblion yn effeithiol ar draws nifer o bynciau ac yn arbennig yn yr wythnos gelfyddydau a gweithgareddau'r marc celfyddydau arian. Ceir profiadau dysgu da iawn sy'n galluogi disgyblion i weithio'n annibynnol a chydweithio mewn parau a grwpiau.
- 109 Cyfoethogir profiadau'r disgyblion yn dda iawn gan ystod o ymwelwyr i'r ysgol; yn eu plith clerigwyr, beirdd, awduron, artistiaid a chwmnïau drama. Trefnir ymweliadau amrywiol sy'n berthnasol i themâu'r gwaith yn ogystal â phrofiadau preswyl i'r disgyblion hŷn.
- 110 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer weithgareddau allgyrsiol yn rhagorol. Mae'n cynnwys ystod helaeth o chwaraeon, clwb cyfrifiaduron, clwb garddio, clwb dawn, clwb darllen, gweithgareddau côr a cherddorfa yn ogystal â phrofiadau yn ymwneud â mudiad yr Urdd. Mae'r cyfleoedd a gaiff y disgyblion i gymryd rhan mewn cystadlaethau'r Urdd ac i gystadlu yn erbyn ysgolion eraill mewn nifer o ffyrdd yn cyfrannu'n sylweddol at eu datblygiad cymdeithasol ac yn ymestyn eu dealltwriaeth o bwysigrwydd chwarae teg.
- 111 Mae trefniadau ar gyfer gwaith cartref yn dda ac yn cysylltu'n briodol â gwaith dosbarth.
- 112 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol y disgyblion yn dda iawn. Ceir rhaglen effeithiol ar gyfer addoli ar y cyd dyddiol ac mae'r achlysuron hyn yn cyfleu naws addolgar i'r disgyblion lle mae cerddoriaeth a chanu yn chwarae rhan bwysig. Caiff y disgyblion gyfleoedd da iawn i gyfrannu ac i synfyfrio ar y themâu a gyflwynir.
- 113 Mae gweithdrefnau ar gyfer datblygiad moesol a cymdeithasol y disgyblion o safon uchel iawn. Mynegir gwerthoedd yr ysgol yn glir, ac mae'r cysyniadau o degwch, goddefgarwch a pharch yn treiddio trwy ei bywyd a'i gwaith. Daw disgyblion yn ymwybodol o beth sy'n gywir ac anghywir, ac maent yn gwrtais i'w gilydd a gyda staff ac ymwelwyr. Codir ymwybyddiaeth disgyblion o'r rhai llai ffodus mewn ffordd effeithiol iawn drwy gyfleoedd i gyfrannu tuag at elusennau penodol. Meithrinir agweddau iachus iawn tuag at addysg. Mae disgyblion hŷn trwy'r Criw Clên yn cael cyfleoedd da iawn i ddangos gofal tuag at y plant

ieuengaf. Rhoddir cyfleoedd effeithiol iawn i ddisgyblion ddangos blaengaredd a chymryd cyfrifoldeb drwy'r cyngor ysgol a'r cyngor eco.

- 114 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion yn rhagorol. Mae'r polisi a'r cynllun gwaith ABCh yn darparu sesiynau 'Cylch o Ffrindiau' yn ogystal ag integreiddio'r elfennau amrywiol drwy'r cwricwlwm. Gwneir cyfraniad gwerthfawr gan ymwelwyr o'r gwasanaethau gofal, a cheir ffocws da ar fwyta a byw yn iach.
- 115 Mae partneriaethau'r ysgol gyda rhieni, y gymuned leol, ysgolion eraill a sefydliadau addysg uwch yn llwyddiannus iawn ac yn cynnwys nodweddion rhagorol sy'n cyfoethogi bywyd a gwaith yr ysgol ac yn ehangu profiadau dysgu'r disgyblion.
- 116 Mae rhieni yn gefnogol iawn o'r ysgol ac maent yn hapus gyda chyflawniadau'r disgyblion yn ogystal â llwyddiant yr ysgol. Mynegant foddhad ag amcanion a gwerthoedd yr ysgol a gwerthfawrogant y polisi drws agored. Mae pob rhiant wedi llofnodi cytundeb ysgol-cartref.
- 117 Darperir gwybodaeth o ansawdd uchel iawn i rieni gan gynnwys gwybodaeth gwricwlaidd cyson. Rhoddir cyfleoedd cyson iddynt drafod gwaith a chynnydd eu plant gyda'r staff. Derbyniant gylchlythyron cyson am fywyd a gwaith yr ysgol a gwneir defnydd effeithiol o wefan yr ysgol. Gwahoddir rhieni i'r sesiynau addoli ar y cyd.
- 118 Gwna rhieni gyfraniad neilltuol i'r ysgol. Mae nifer yn rhoi o'u hamser ar gyfer cefnogi gweithgareddau'r ysgol gan gynnwys mynd gyda disgyblion ar ymweliadau, gwrando ar ddarllenwyr, cynorthwyo clybiau ysgol yn ogystal â chodi arian. Gwna'r CRA gyfraniad da iawn i fywyd a gwaith yr ysgol gan gynnwys cyfraniadau ariannol.
- 119 Mwynheir partneriaeth bositif iawn gydag ysgolion eraill o fewn y teulu ysgolion sy'n cwrdd yn rheolaidd ac yn cyfrannu'n dda at ddatblygu gwahanol fentrau. Mae cysylltiadau gwerthfawr gydag ysgolion yr ardal i gyd yn darparu cyfleoedd chwaraeon a cherddorol ar y cyd. Mae gweithdrefnau ar gyfer trosglwyddo disgyblion i'r ysgol uwchradd yn dda iawn gan gynnwys rhaglen bontio hynod o effeithol.
- 120 Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaethau llwyddiannus gyda nifer o sefydliadau addysg uwch ac mae'n darparu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon ac ar gyfer myfyrwyr yn dilyn cyrsiau galwedigaethol. Caiff myfyrwyr eu cefnogi'n dda iawn a gwnânt gyfraniad gwerthfawr i fywyd yr ysgol.
- 121 Mae partneriaeth yr ysgol gyda'r gymuned leol yn ardderchog. Ceir cysylltiadau da gyda'r cyfryngau ac mae'r ysgol yn cyfrannu'n dda drwy gyflwyno eitemau i bapur lleol. Mae'r ysgol yn uchel ei pharch yn y gymdogaeth a gwna staff bob mantais o'r hyn sydd gan y gymuned leol a'r gymuned ehangach ei gynnig ar gyfer ehangu a chyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae nifer o aelodau'r gymuned leol yn gweithio'n wirfoddol yn yr ysgol. Cefnogir a gwerthfawrogir y gwahanol weithgareddau'r ysgol yn dda iawn.
- 122 Mae'r ffocws ar addysg sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn elfen dda o'r ddarpariaeth addysgol. Mae polisi clir yn bodoli ac mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymweld ag ystod briodol o fusnesau a siopau lleol ac wedi elwa o gyfraniad ymwelwyr o'r byd gwaith. Er nad yw athrawon hyd yn hyn wedi cael y

profiad o leoliad mewn sefyllfa waith y tu allan i'r ysgol, cânt hyfforddiant gan Gyrfa Cymru. Mae'r cysylltiad yma wedi cael effaith dda ar yr addysgu a'r dysgu mewn gwahanol feysydd cwricwlaidd.

- 123 Mae ethos Cymreig yr ysgol a'r pwyslais a rhoddir ar ddiwylliant Cymreig ac ar etifeddiaeth Cymru yn elfennau rhagorol o'r ddarpariaeth. Mae'r dimensiwn Cymreig yn amlwg iawn ar draws nifer fawr o bynciau a cheir ystod o ymwelwyr megis beirdd ac awduron a chwmnïau drama. Mae disgyblion yn ymweld â mannau hanesyddol pwysig ym mywyd y genedl, ac yn elwa'n rhagorol o'r cysylltiad gyda mudiad yr Urdd. Mae'r gweithdrefnau i hybu medrau dwyieithog yn rhagorol, a hyrwyddir sgiliau trawsieithu disgyblion CA2 yn dda iawn. Caiff disgyblion hŷn y cyfle i ddysgu Ffrangeg ac Almaeneg.
- 124 Mae'r ffocws ar hybu ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwylliannau eraill yn gryfder amlwg. Dethlir yr elfen amlddiwylliannol yn effeithiol trwy brofiadau megis addysg grefyddol, daearyddiaeth a chelf ac ymweliadau gan aelodau o'r gymuned.
- 125 Mae gan yr ysgol weithdrefnau sicr ar gyfer hyrwyddo cyfartaledd mynediad a chyfle. Caiff disgyblion, waeth beth yw eu cefndir cymdeithasol, rhyw neu ethnigrwydd, eu cynnwys yn gyflawn yn holl weithgareddau'r ysgol.
- 126 At ei gilydd, mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer addysg gynaliadwy yn dda iawn ac mae'r ysgol wedi derbyn tystysgrif efydd Eco-Sgolion. Chwaraeir rhan gynyddol bwysig gan y pwyllgor eco ac mae'r ffocws ar adfer, ailddefnyddio ac ailgylchu yn ogystal â'r defnydd a wneir o ardd yr ysgol yn elfennau allweddol. Mae darpariaeth dda iawn ar gyfer hybu ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth byd eang trwy brofiadau sesiynau addoli ar y cyd, gwersi addysg grefyddol ac ABC h a thrwy'r cyfleoedd a gaiff disgyblion i hybu masnach deg, i wneud penderfyniadau ac i gyfrannu at elusennau. Defnyddir y ffrwythau a'r llysiau a dyfir ar y rhandir ar gyfer y digartref. Mae'r ysgol wedi ymuno a phrosiect Ysgol Ryngwladol ac wedi derbyn gwobr sylfaenol yn ymwneud â'r fenter hon.
- 127 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o fentergarwch yn datblygu'n dda. Mae disgyblion B6 yn paratoi pethau i'w gwerthu yn y ffair haf, ac maent yn gyfrifol am siop ffrwythau amser egwyl ac am hybu masnach deg. Serch hynny mae'r ffocws ar fentergarwch yn elfen y mae'r ysgol yn nodi ar gyfer datblygiad pellach.
- 128 Mae ysgol yn cymryd ystyriaeth dda iawn o flaenoriaethau cenedlaethol, megis cydraddoldeb, dwyieithrwydd a datblygiadau TGCh. Caiff disgyblion brofiadau da i weithio yn annibynnol ac i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'u cyfrifoldeb tuag at ddyfodol eu cymuned.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

- 129 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
- 130 Mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i'r disgyblion yn rhagorol. Mae disgyblion yn hapus iawn ac mae'r berthynas rhyngddynt a'r staff dysgu ac atodol yn un gynnes. Ceir ethos gofalgarg a chynhwysol yn yr ysgol ac

mae gan y rhieni a fynegodd farn yn y cyfarfod cyn-arolygiad ac mewn holiaduron, hyder cryf yn y gofal a'r cyfarwyddyd a estynnir i'w plant.

- 131 Mae sicrhau barn rhieni drwy holiaduron wedi'i sefydlu. Gwerthusir y canlyniadau a'u defnyddio i hybu a chryfhau'r bartneriaeth. Caiff syniadau'r cyngor ysgol wrandawriad ac maent yn cyfrannu'n effeithiol tuag at strategaethau ar gyfer gwella ansawdd rhannau o'r ysgol a threfnu diwrnod gwrth-fwlio. Drwy gael anerchiad gan yr Aelod Seneddol lleol, dônt yn ymwybodol o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau.
- 132 Mae plant newydd yn ymgartrefu'n gyflym iawn ac mae gweithdrefnau sefydlu yn effeithiol iawn yn y dosbarthiadau meithrin a'r derbyn wrth wahodd plant a rhieni i dreulio amser yn y dosbarth cyn dechrau. Mae'r drefn bontio â'r ysgol gyfun yn fanwl a chynhwysfawr gyda gweithgareddau bwriadus ar gyfer hyrwyddo parhad rhwng un cyfnod allweddol a'r llall.
- 133 Cynigir cefnogaeth a chyfarwyddyd personol o ansawdd uchel i ddysgwyr ac mae'r amser 'Cylch o Ffrindiau' yn gymorth i ddysgwyr gyfathrebu a rhannu unrhyw bryder gyda'r staff. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da iawn o'r gwasanaethau cefnogi megis yr heddlu, y dynion tân a'r ganolfan ddiogelwch a chydweithir yn agos gyda nyrs yr ysgol wrth iddi drefnu hyfforddiant i'r staff ar anghenion meddygol plant. Rhoddir pwyslais ar ofalu am eraill, megis hwyrddyfodiaid, ac mae disgyblion hŷn yn cymryd eu cyfrifoldebau gofal o ddifrif ac yn defnyddio'r 'gadair deulu' i bwrpas.
- 134 Mae trefniadau monitro presenoldeb a phrydlondeb yn dda ac fe atgoffir rhieni yn rheolaidd am eu dyletswyddau.
- 135 Mae trefniadau rhagorol yn bodoli er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch disgyblion. Cymerir rhan mewn taith 'iechyd a diogelwch' o amgylch yr ysgol; mae staff wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf a gwneir asesiadau risg priodol ar gyfer yr ysgol ac ymweliadau. Rhoddir sylw canmoladwy i iechyd corfforol ac mae'r ysgol wedi derbyn achrediad am hyrwyddo Ysgol Iach. Cynhelir Wythnos Iechyd a Ffitrwydd i ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o fwyta a byw'n iach a chydweithir yn effeithiol iawn gyda nifer o asiantaethau a phartneriaethau i'r perwyl hwn. Mae disgyblion yn elwa o weithgareddau cadw'n heini mewn gwersi addysg gorfforol ac yn allgyrsiol ac fe'u hanogir i gerdded a beicio i'r ysgol.
- 136 Mae trefniadaeth yr ysgol drefniadaeth ar gyfer amddiffyn plant yn bwrpasol ac yn cwrdd â gofynion statudol.
- 137 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn rhagorol ac yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Cod Ymarfer. Mae gan yr ysgol drefniadau manwl ac effeithiol ar gyfer darganfod yn fuan y disgyblion ag AAA. Mae gan y cydgysylltydd ymwybyddiaeth ragorol o anghenion addysgol a meddygol pob disgybl yn cynnwys y rhai abl a thalentog. Ceidw gofnod trefnus a chyfredol o anghenion pob disgybl gan dracio cynnydd, cefnogi'r addysgu ac adolygu'r ddarpariaeth yn rheolaidd. Mae'r cynlluniau addysg unigol (CAU) y disgyblion yn effeithiol iawn, fe'u trafodir a'u hadolygir yn gyson gyda'r disgyblion a'u rhieni, a chaiff disgyblion a rhieni eu hysbysu o'r targedau.
- 138 Gwneir defnydd rhagorol yn gynnar iawn o wirfoddolwyr, cymorthyddion ac arbenigwyr yn eu maes o'r AALI, er mwyn darparu'r gefnogaeth orau i hyrwyddo sgiliau rhif ac iaith yn CA1. Yn yr adran iau darperir mewnbyn ychwanegol

gwerthfawr gan ddwy athrawes, ar gyfer disgyblion sy'n tangyflawni. Nodwedd ragorol yn yr ysgol yw'r hyfforddiant a roddir i'r staff i gyd, sy'n cyfiawnhau ei statws fel ysgol ddyslecsia gyfeillgar. Mae sicrhau'r ymyrraeth yn cael effaith gadarnhaol ar hunan hyder disgyblion, sy'n agwedd mae'r ysgol yn ei feithrin yn llwyddiannus.

- 139 Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i addysgu'r disgyblion sut i ymddwyn yn briodol. Mae'r ysgol yn tracio disgyblion sydd â phroblemau ymddygiad, a gelwir asiantaethau allanol a rhieni os bydd angen, gan fonitro pob achos yn effeithiol. Defnyddir strategaethau amrywiol, megis drwy ganmol a gwobrwyo, i hyrwyddo ymddygiad da a chefnogi disgyblion sydd ag AAA. Drwy ddefnyddio cymeriadau a grëwyd gan y disgyblion, trefnwyd diwrnod gwrth-fwlio effeithiol gan y cyngor ysgol, gan bwysleisio ethos cynhwysol yr ysgol a'r angen i ddileu unrhyw rwystr i hwn.
- 140 Mae'r ysgol yn weithredol yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ac ymagweddau canmoladwy tuag at amrywiaeth. Trwy ymweliadau gan rieni o wahanol gefndiroedd, meithrinir parch tuag at bobl o bob cefndir diwylliannol. Mae profiadau dysgu yn y dosbarth ac yn allgyrsiol mewn gweithgareddau megis pêl droed a dawnsio yn dyst o ymdrech yr ysgol i waredu ar agweddau ystrydebol ac i hyrwyddo cydraddoldeb ar sail hil, cefndir a rhyw.
- 141 Mae'r ysgol yn gweithredu'n rhagorol i gwrdd ag anghenion disgyblion ag anabledd ac er bod yr adeilad ar ddau lawr, mae'r lifft a'r addasiadau eraill a wnaethpwyd yn gwneud yr ysgol yn hygyrch i bob disgybl. Mae cynllun hygyrchedd effeithiol iawn mewn lle ac mae holl randdeiliaid yr ysgol yn ymwybodol o'r polisi a'r cynllun.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

- 142 Er bod y tim arolygu wedi rhoi Gradd 2 ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1, maent wedi dyfarnu Gradd 1 ar gyfer Cwestiwn Allweddol 5 oherwydd ansawdd rhagorol y ddarpariaeth, yr hunan-arfarnu a'r defnydd o adnoddau.
- 143 Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd a barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu, gan fod y tîm yn ystyried bod nifer o nodweddion rhagorol yn arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol.
- 144 Mae gan yr ysgol nodau a gwerthoedd cytûn sydd yn hyrwyddo cydraddoldeb i bawb ac sy'n cael eu hadlewyrchu ym mhob agwedd o waith yr ysgol. Mae staff, disgyblion a llywodraethwyr yn rhannu'r un disgwyliadau ac yn cydweithio'n effeithiol iawn er mwyn eu cyflawni.
- 145 Mae gan y pennaeth weledigaeth glir am gyfeiriad gwaith yr ysgol ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hunan, o'r UDRh, o'r staff addysgu a chynorthwyol i gyd, o'r llywodraethwyr ac o'r disgyblion. Mae hi'n darparu cyfeiriad clir i waith yr ysgol ac yn hyrwyddo safonau uchel. Mae ei phwyslais ar ddatblygiad y plentyn cyfan a'i hymrwymiad i sicrhau cymuned ysgol lle mae pob unigolyn yn cael yr un cyfle i ddatblygu doniau unigol yn rhoi sail gadarn i ddarpariaeth gyfoethog yr ysgol. Er mwyn hyrwyddo hwn, mae am sicrhau bod y staff hefyd yn cael pob cyfle posibl i ddatblygu'n bersonol ac yn broffesiynol.

- 146 Mae'r dirprwy bennaeth yn cyflawni ei dyletswyddau ysgol-gyfan yn gydwybodol ac yn ymroddgar, ac mae'n cydweithio'n effeithiol iawn gyda'r pennaeth a holl staff yr ysgol.
- 147 Caiff y pennaeth ei chefnogi gan UDRh sydd hefyd yn cyfrannu'n llawn i'r broses o bennu blaenoriaethau ar gyfer datblygiad yr ysgol. Mae cydweithio tîm o ansawdd uchel yn nodweddiadol o arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol.
- 148 Mae'r aelodau eraill o'r staff y mae cyfrifoldeb cydlynu ganddynt hefyd yn cyflawni eu gwaith yn ymroddgar, ac yn rhoi arweiniad da iawn i'w cyd-athrawon. Mae ganddynt wybodaeth glir am y safonau a gyflawnir drwy fonitro rheolaidd o gynllunio a gwersi athrawon, o waith disgyblion yn eu llyfrau ac mewn arddangosfeydd, ac o ddata asesiadau pynciol.
- 149 Mae cyfathrebu rhwng oedolion yn effeithiol iawn gyda phawb yn cyfrannu at ac yn deall polisiau a gweithdrefnau. Cynhelir cyfarfodydd UDRh, cyfarfodydd cyfnod, a chyfarfodydd staff yn rheolaidd, ac mae trefn amlwg i waith a bywyd yr ysgol. Mae'r diwrnod ysgol yn effeithiol ac yn effeithlon. Rhennir arfer dda mewn cyd-destunau amrywiol.
- 150 Rhydd yr ysgol ystyriaeth deg i flaenoriaethau cenedlaethol, sirol a mewnol. Mae blaengaredd yn amlwg mewn nifer o fentrau megis Eco-Sgolion, dinasyddiaeth fyd-eang, addysg iechyd, hawliau plant, prosiect Dysgu i Ddysgu a datblygiadau cwricwlaidd fel y Cyfnod Sylfaen a Chwricwlwm 2008.
- 151 Mae'r CDY yn ddogfen glir a phwrpasol sy'n gosod targedau a nodau heriol. Caiff gweithrediad y cynllun ynghyd ag effaith y datblygiadau ar yr ysgol eu monitro'n rheolaidd.
- 152 Mae polisi a gweithdrefnau rheoli perfformiad yr ysgol yn effeithiol iawn. Mae gofynion hyfforddi staff yn cael eu hadnabod o ddadansoddiad holiaduron yn gynnar yn nhymor yr haf, a gwneir ymdrech i ddiwallu anghenion datblygiad proffesiynol parhaus yn effeithlon drwy ddarparu cyrsiau allanol a hyfforddiant mewnol. Gwneir defnydd da iawn o gymorth ymgynghorwyr sirol, yn enwedig wrth gefnogi athrawon sydd yn cymryd cyfrifoldeb newydd. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cyfrannu'n helaeth at ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth gwricwlaidd. Defnyddir amser cynllunio a pharatoi athrawon (CPA) yn effeithiol i elwa o arbenigedd mewn cerddoriaeth ac addysg grefyddol.
- 153 Mae'r pennaeth, dirprwy a'r staff yn dadansoddi data perfformiad yr ysgol yn fanwl ac yn drylwyr, ac yn ei defnyddio i osod targedau.
- 154 Mae'r gweithdrefnau ar gyfer cefnogi a monitro athrawon newydd eu cymhwyso yn ardderchog.
- 155 Cyflawna aelodau'r corff llywodraethol eu dyletswyddau yn gydwybodol, a gweithiant yn rhagorol gyda'r pennaeth i helpu gosod cyfeiriad strategol i'r ysgol drwy'r CDY. Maent yn hollol ymwybodol o'u cyfrifoldebau cyfreithiol ac maent yn eu cyflawni yn llawn. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd boed fel is-bwyllgorau neu yn gorff llawn. Bu nifer yn mynychu cyrsiau hyfforddiant sy'n berthnasol i'w cyfrifoldebau.
- 156 Mae aelodau unigol y corff llywodraethol yn cyflawni eu cyfrifoldeb am fonitro darpariaeth a safonau mewn pynciau penodol a darpariaeth AAA yn gydwybodol iawn. Gwneir eu cyfraniad mewn awyrgylch o gefnogaeth ac fel cyfaill beirniadol.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

- 157 Mae prosesau hunan arfarnu'r ysgol a'r cynllunio ar gyfer gwelliant o ansawdd uchel iawn. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
- 158 Mae'r elfennau rhagorol yn cynnwys:
- rôl fonitro a chyfraniad arwyddocaol y pennaeth i'r broses;
 - cyfraniad yr holl randdeiliaid a natur gynhwysol iawn y broses hunan werthuso;
 - cylched fonitro effeithiol iawn;
 - ansawdd uchel iawn yr adroddiadau hunanwerthuso ar bynciau ac agweddau eraill o fywyd ysgol;
 - y dadansoddiad a wneir o ddata meintiol; a
 - effeithiolrwydd y cynllunio ar gyfer gwelliant.
- 159 Mae diwylliant hunan arfarnu wedi'i sefydlu'n dda iawn yn yr ysgol ac mae cysylltiadau cadarn iawn rhwng y broses hunan arfarnu a'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r pennaeth, y corff llywodraethol a'r staff yn ymrwymedig i ddatblygu'r ysgol ymhellach ac maent wedi sefydlu gweithdrefnau sy'n gynhwysfawr, systematig ac yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol. Cysylltir y gweithdrefnau yn agos iawn gyda chylch rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol parhaus staff.
- 160 Mae dyfarniadau am safonau'r dysgu a'r addysgu yn elfen gadarn yn y broses hunan arfarnu a'r cynllunio ar gyfer gwelliant. Mae gan yr holl staff a'r llywodraethwyr ran allweddol yn yr adolygu, cynllunio a monitro datblygiadau ysgol-gyfan a osodir allan yn CDY. Gwneir defnydd da o gymorth athrawon ymgynghorol ac ymgynghorwyr yr awdurdod a gwna disgyblion a rhieni gyfraniad gwerthfawr wrth fynegi barn.
- 161 Sefydlwyd cylched fonitro effeithiol iawn o fewn yr ysgol. Mae rôl monitro a gwerthuso'r pennaeth a'r UDRh yn allweddol wrth fonitro ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae gan arweinwyr y gwahanol bynciau ac agweddau wybodaeth dda iawn am gryfderau ac ardaloedd ar gyfer gwelliant yn eu meysydd unigol yn seiliedig ar fonitro cynllunio, adnoddau, llyfrau dysgwyr ac ansawdd yr addysgu. Dangosant ymwybyddiaeth gadarn iawn o unrhyw ddatblygiadau cenedlaethol a sirol yn eu meysydd. Maent yn cyflwyno adroddiadau o safon uchel iawn ar sefyllfa gyfredol eu pynciau ac agweddau gan gynnwys cynlluniau gweithredu clir. Caiff cydlynwyr newydd gefnogaeth o ansawdd uchel i ddatblygu eu sgiliau arwain a rheoli.
- 162 Mae'r pennaeth a'r staff yn cynnig dadansoddiad manwl iawn o ganlyniadau profion asesu'r disgyblion, gan gynnwys canlyniadau profion gwaelodlin yn y Cyfnod Sylfaen, a phroffion safonol ac asesuadau athrawon yn CA1 a CA2. Gwneir defnydd effeithiol o'r wybodaeth a gesglir ar gyfer lliwio'r addysgu a gosod targedau i ddisgyblion.

- 163 Trafodir canlyniadau profion a thargedau gyda'r llywodraethwyr ac mae gan y corff llywodraethol wybodaeth dda iawn am ddatblygiad disgyblion a sut mae'r ysgol yn meincodi yn erbyn ysgolion tebyg o ran prydau bwyd am ddim, ysgolion y teulu ac ysgolion lleol a chenedlaethol.
- 164 Mae'r ysgol yn asesu ei chryfderau ag agweddau i'w datblygu drwy CDY clir a thrylwyr. Mae'r ddogfen hon yn nodi anghenion yr ysgol, cyfrifoldebau a goblygiadau ariannol ac amser yn glir. Mae'n ddogfen weithredol ddefnyddiol iawn gyda meini prawf llwyddiant mesuradwy. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn sicrhau bod adnoddau ardderchog ar gael er mwyn cyrraedd targedau. Caiff y blaenoriaethau eu monitro'n ofalus.
- 165 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r proses hunan arfarnu wedi arwain at sefydlu ystod eang o flaengareddau pwysig, ac mae llawer ohonynt eisoes wedi sicrhau gwelliannau amlwg. Yn eu plith y mae datblygiadau'r Cyfnod Sylfaen, gwella darpariaeth TGCh, sefydlu rhaglenni i gefnogi disgyblion mewn gwahanol feysydd, mentrau a phrosiectau a chynllunio gwelliannau i dir yr ysgol.
- 166 Mae'r adroddiad hunan arfarnu a gynhyrchwyd gan yr ysgol cyn yr arolygiad yn ddogfen ragorol. Mae'n cynnig ystod dda iawn o wybodaeth berthnasol a dadansoddiad manwl o holl agweddau bywyd ysgol. Canfyddir blaenoriaethau a meysydd ar gyfer datblygu yn eglur ynghyd â'r cryfderau gan gynnwys y rhagoriaethau niferus sy'n bodoli. Mae holl agweddau'r arfarnu yn seiliedig ar ystod helaeth iawn o dystiolaeth briodol a chefnogol.
- 167 Roedd y tîm arolygu yn cytuno i raddau helaeth iawn â gwerthusiadau'r ysgol o'i chryfderau ac elfennau i'w datblygu o fewn cyd-destun y saith cwestiwn allweddol. Cytunwyd â phump o'r graddau a roddwyd gan yr ysgol i'r cwestiynau allweddol. Codwyd y graddau o 2 i 1 ar gyfer cwestiynau eraill gan fod y tîm wedi nodi digon o nodweddion rhagorol i ganiatáu hyn.
- 168 Mae'r ysgol wedi ymateb yn llwyddiannus i faterion allweddol yr arolwg blaenorol ac wedi gwneud cynnydd da yn ystod y chwe blynedd diwethaf.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

- 169 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
- 170 Ceir cyflenwad da iawn o staff addysgu i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae gan yr athrawon gymwysterau perthnasol ac ystod eang o arbenigedd sydd yn cael ei rhannu'n effeithiol iawn. Mae'r athrawon wedi eu lleoli'n briodol a gwneir defnydd effeithiol o'r arbenigedd sydd ar gael mewn pynciau megis cerddoriaeth ac addysg grefyddol. Mae'r cynllunio ar gyfer dirprwyo cyfrifoldebau yn dda iawn ac mae'r arweinwyr cwricwlwm yn cyfrannu yn effeithiol iawn at ddatblygiad eu pynciau a'u meysydd. Mae'r defnydd a wneir o athrawon yn elfen ragorol o'r ddarpariaeth.
- 171 Buddsoddir yn dda o ran staff cynorthwyol dosbarth brwdfrydig ac effeithiol iawn sy'n cydweithio'n dda iawn gyda'r athrawon drwy'r ysgol ac yn enwedig ar gyfer y cyfnod sylfaen. Mae eu cyfraniad cyffredinol yn dda gyda nodweddion

rhagorol. Cydweithiant yn effeithiol iawn gyda'r athrawon, a gwnânt gyfraniad sylweddol i weithgareddau allgyrsiol fel dawnys, gweithgareddau TGCh a chlybiau eraill ar ôl oriau'r ysgol. Mae'r disgrifiadau swydd sydd gan bawb yn rhoi amlinelliad clir o'u cyfrifioldebau.

- 172 Mae'r athrawon wedi diweddarau eu gwybodaeth gwricwlaidd a'u medrau addysgu drwy ddilyn rhaglenni hyfforddiant a drefnir ar eu cyfer. Gwneir defnydd effeithiol o gronfa Gwella Ysgol ac arian nawdd y cyngor addysgu i ariannu hyfforddiant perthnasol. Mae'r staff cynorthwyol yn elwa o gyfleoedd amrywiol i ddilyn cyrsiau ac mae'r datblygiad yn eu sgiliau a'u dealltwriaeth yn cyfrannu'n helaeth at ddarpariaeth gyffredinol yr ysgol. Cydweithia'r holl staff yn effeithiol iawn fel tîm, i gyd-gynllunio, asesu a phennu blaenoriaethau.
- 173 Ceir gweithdrefnau da iawn ar gyfer sicrhau cyfnodau CPA athrawon ac mae trefniadau rhagorol mewn lle ar gyfer cefnogi athrawon sydd newydd eu cymhwyso.
- 174 Mae'r adeilad mewn cyflwr da ar y cyfan, ac yn gymharol ddiweddar ychwanegwyd estyniad sy'n darparu gofod ar gyfer swyddfeydd, ystafell TGCh, toiledau anabl, lifft ac ystafelloedd cotiau. Mae'r ystafelloedd dosbarth yn ddigonol o ran maint, ac mae gan ystafelloedd y dosbarthiadau meithrin a derbyn, B1 a B2 ddrysau sydd yn agor yn uniongyrchol i'r ardal allanol. Ceir ystafell gerdd fach, ystafell gyfrifiaduron a llyfrgell ysgol bwrpasol sydd yn ychwanegu'n dda at y ddarpariaeth gwricwlaidd. Defnyddir y neuadd yn drefnus ac yn effeithlon, ar gyfer sesiynau addoli ar y cyd, gwersi dawnys, gymnasteg a cherdd, ac ar gyfer cinio ysgol.
- 175 Ceir arddangosfeydd rhyngweithiol o safon uchel iawn ar draws yr ysgol sy'n dathlu gwaith disgyblion ac yn adlewyrchu'u profiadau dysgu yn dda iawn.
- 176 Gwneir defnydd creadigol a hynod o effeithiol o safle cyfyng yr ysgol i ddarparu ardaloedd dysgu allanol diddorol a symbylol. Trefnir darpariaeth barhaus y tu allan i'r dosbarthiadau meithrin a derbyn mewn modd eithriadol o ddychmygol a deniadol i wneud y gorau o bob rhan o'r ardal. Mae estyn darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn ardal allanol B1 a B2 yn datblygu'n dda iawn. Nodir gan yr ysgol yr angen i adnewyddu llawr meddal allanol y Cyfnod Sylfaen a gosod llawr tebyg o'r newydd i B1 a B2. Datblygir gerddi blodau a llysiau yn rhandir yr ysgol yn ddiddorol yn gysylltiedig â rhai prosiectau cwricwlaidd. Adeiladwyd pwll dŵr yn agos i ofod dysgu'r cyfnod sylfaen. Defnyddir y buarth yn effeithiol ar gyfer gwersi addysg gorfforol a chwaraeon allgyrsiol gan gynnwys pêl rwyd, pêl droed, a hoci, ac ychwanegir yn effeithlon at y ddarpariaeth hon drwy ddefnyddio caeau cyfagos ar gyfer rygbi. Gan ystyried cyfyngder y safle a'i lleoliad yn ymyl un o strydoedd prysuraf y ddinas, mae'r ysgol yn gwneud defnydd rhagorol ohoni.
- 177 Mae'r gofalwr a'r glanhawyr yn gweithio'n effeithiol iawn i gadw'r ysgol yn lan ac yn daclus. Mae'r cynorthwywyr gweinyddu yn gwneud cyfraniad sylweddol i rediad llyfn yr ysgol o ddydd i ddydd, a chyfranna'r cymorthyddion amser cinio at reolaeth a threfn yr awr ginio yn dda iawn.
- 178 Gwneir defnydd effeithiol o gefnogaeth ariannol hael y gymdeithas rieni ac mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus yn ei chais am arian grantiau.
- 179 Y mae'r corff llywodraethol yn cyd-weithio'n ardderchog gyda'r pennaeth, yr UDRh a'r holl staff i sicrhau fod yr adnoddau yn cyd-fynd a'u blaenoriaethau ar gyfer datblygiad. Cynhelir adolygiadau rheolaidd i fonitro digonolrwydd a

chymhwyster yr adnoddau. Ceir ystod o adnoddau da a da iawn ar gyfer cefnogi cwricwlwm y disgyblion ac maent yn briodol i anghenion yr ystod oed. Mae adnoddau dysgu cerddoriaeth, celf, gwyddoniaeth a llyfrau yn y ddwy iaith yn arbennig o dda. Mae gan bob dosbarth fwrdd gwyn rhyngweithiol a rhai cyfrifiaduron, ond gall disgyblion ddefnyddio'r ystafell gyfrifiaduron a'r troli gliniaduron hefyd. Caiff adnoddau eu trefnu'n bwrpasol iawn ac yn hygyrch i staff a disgyblion. Mae'r defnydd a wneir ohonynt ar draws yr ysgol gan gynnwys meysydd y Cyfnod Sylfaen, yn elfen ragorol o'r ddarpariaeth.

- 180 Mae'r ysgol yn dilyn polisi gwerth gorau am arian yr AALI ac mae'r llywodraethwyr, y pennaeth a swyddog cyllid yr awdurdod yn monitro gwariant cyllid ysgol yn ofalus. Clustnodwyd cyllid yr ysgol dros y ddwy flynedd diwethaf yn fwriadus i ddatblygu'r adeilad a'r adnoddau, ac mae'r penderfyniadau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y cyfleusterau, cyfleoedd dysgu'r disgyblion a safonau'r addysgu.
- 181 Wrth ystyried y defnydd effeithol iawn a wneir o adnoddau, ansawdd uchel y ddarpariaeth addysgol, cyfoeth y ddarpariaeth gwricwlaidd ac ansawdd y gofal a'r cyfarwyddyd a'u heffaith ar gyflawniad dysgwyr, mae'r ysgol yn darparu gwerth da iawn am arian.

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

Y cyfnod sylfaen ar gyfer plant dan 5 oed

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amlddiwylliannol

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion da

Meithrin

182 Mae plant tair oed yn ymateb yn frwdfrydig i brofiadau newydd. Maent yn ffurfio perthynas dda iawn gyda phlant eraill ac oedolion, ac yn hyderus i gyd-chwarae a chyd-weithio ag eraill. Deallant fod enw person yn rhywbeth arbennig. Deallant fod angen dilyn rheolau o fewn y dosbarth a chydymffurfio yn ystod sesiynau cyflwyno a 'chylch o ffrindiau', ond gallant wneud dewisiadau yn eu gweithgareddau yn annibynnol. Mae eu hymddygiad mewn gweithgareddau y tu allan yn eithriadol. Cymerant gyfrifoldeb am wisgo'n briodol i fynd allan, ac ar gyfer palu yn yr ardd. Deallant fod rhaid gofalu am bopeth byw. Maent yn ymwybodol am bwysigrwydd cadw'n ddiogel wrth fynd am dro yn yr ardal leol. Mae'r rhan fwyaf wedi dysgu sut i rannu a chymryd eu tro. Deallant yr angen i fwyta'n iach a bod golchi dwylo yn bwysig ar gyfer hylendid personol, yn enwedig cyn dechrau ar weithgaredd gwneud bara. Maent yn datblygu ymdeimlad o berthyn i gymuned yr ysgol a'r gymuned ehangach, ac o'u Cymreictod. Deallant fod bwyd Tsieineaidd yn wahanol i fwyd Cymru, a bod dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd yn golygu gwneud dreigiau papur lliwgar.

Derbyn

183 Gall plant y dosbarth derbyn ganolbwyntio ar weithgaredd am gyfnod estynedig o amser. Maent yn hyderus ac yn hapus yn gweithio yn unigol, neu mewn pâr ac yn eu grwpiau. Cânt gyfleoedd i feithrin ymdeimlad o falchder a gwerthfawrogi doniau ei gilydd. Dangosant sgiliau hunanreolaeth ragorol wrth

wneud dewisiadau gweithgareddau'n annibynnol, ac wrth gyflawni tasgau o dan gyfarwyddyd. Llwyddant gofrestru eu hunain wrth ddechrau'r sesiwn bore. Mae eu hymddygiad yn y dosbarth ac yn yr ardal allanol yn dangos ystyriaeth o anghenion eraill yn ogystal â'u hanghenion eu hunan. Cymerant gyfrifoldeb cyson am dacluso ac ail-gylchu gweddillion papur. Maent yn cyd-chwarae yn dda iawn mewn ystod o weithgareddau megis rhedeg milfeddygfa, golchfa ceir a gorsaf heddlu. Defnyddiant y cyfrifiaduron a'r bwrdd gwyn rhyngweithiol yn hyderus i chwarae gemau a thynnu llun. Deallant y rheswm am ddathlu gŵyl Gymreig ar Ddydd Gŵyl Ddewi, a gwyddant am offerynnau cerdd a phatrymau deunydd Affricanaidd.

Diffygion

184 Nid oes diffygion pwysig.

Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion da

Meithrin

185 Mae'r plant yn dysgu'n fuan iawn i wrando ar oedolion ac ar ei gilydd. Maent yn deall ac yn ymateb yn gywir i gwestiynau, sylwadau a chyfarwyddiadau yn y Gymraeg. Datblygant ystod o batrymau iaith a chystrawennau, gan fentro ar eirfa newydd yn hyderus i gyfleu'r hyn maent yn ei feddwl, er enghraifft wrth fynegi eu bod 'wrth eu bodd' yn gwneud y gweithgaredd. Dangosant sgiliau cyfathrebu da wrth chwarae rôl yn y feddygfa, ac wrth chwarae gyda phypedau. Deallant fod gwrando ar stori neu chwedl o Gymru neu o wlad arall yn hwyl, a bod llyfrau yn bethau i'w mwynhau. Gwyddant sut i drin llyfrau yn gywir. Gallant ymateb i ddrama maent wedi'i gwyllo a chymryd rhan eu hunan. Defnyddiant amrywiaeth o offer ysgrifennu i wneud marciau ar bapur a thu allan ar y llawr. Llwyddant ffurfio rhai llythrennau ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol ac yn y tywod. Gallant ffurfio eu henwau eu hunan gyda gwellt ac wrth ddefnyddio pennau ffelt du ar bapur. Datblygant y gallu i hunan gofrestru. Deallant fod rhestr o gynhwysion i wneud bara yn fodd i gyfathrebu a dechreuant datblygu llawysgrifen sy'n ddarllenadwy.

Derbyn

186 Mae'r plant yn gwrando'n dda iawn ar gyflwyniadau a storïau, ac yn datblygu'r gallu i ragfynegi beth fydd yn digwydd nesaf. Maent yn canolbwyntio'n dda i ddeall pwrpas gweithgareddau. Gallant ofyn cwestiynau a mynegi teimladau fel trist a hapus. Gallant enwi anifeiliaid y jwngl, a defnyddio iaith ddisgrifiadol fel mawr a bach. Maent yn gwybod dyddiau'r wythnos, enw'r mis, a'r tymor. Defnyddiant lyfrau yn gywir, a datblygant sgiliau chwilio am lyfrau yn llyfrgell yr ysgol. Mae'r mwyafrif yn gallu enwi llythrennau yn gywir, gan gysylltu symbol a sŵn, ac enwi gwrthrychau sy'n dechrau gyda'r symbol. Llwyddant ffurfio nifer helaeth o lythrennau yn dda gan dros-ysgrifennu a thanysgrifennu. Mae'r rhan fwyaf yn adnabod eu henwau ac yn eu hysgrifennu'n gywir. Mae ychydig yn llwyddo ysgrifennu brawddeg yn annibynnol. Mwynhânt chwarae rôl newyddiadurwyr wrth dynnu llun â chamera digidol ac 'ysgrifennu' erthygl am newyddion cyffrous yr wythnos; y cyw cyntaf wedi deor o'r wyau yn y ddeorfa.

Diffygion

187 Nid oes diffygion pwysig.

Datblygiad mathemategol

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion da

Meithrin

188 Gall plant tair oed ail-adrodd rhifau 1-10 yn y drefn gywir. Mae eu dealltwriaeth o'r rhifau 1-5 yn dda. Gallant enwi rhifau yn y drefn gywir, a'u hadnabod allan o drefn. Llwyddant gysylltu nifer o wrthrychau gyda symbol ac enw'r rhif. Ysgrifennant rifau yn y tywod ac mae ychydig ohonynt yn gallu ffurfio rhifau i bump gan ddefnyddio pensil a phapur. Canant amrywiaeth o rigymau rhifo. Mae eu dealltwriaeth o 'wag', 'llawn' a 'hanner wag' yn datblygu'n dda wrth lenwi cynhwysion dwr â llaeth, a deallant gysyniad 'mwy' a 'llai', y 'mwyaf' a'r 'lleiaf' wrth fesur print troed. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o 'fawr', 'canolig' a 'bach'. Sylweddolant bwrpas arian wrth chwarae yn y siop ac arbrofi gyda thalu a derbyn newid. Maent yn adnabod siapau dau-ddimensiwn syml fel cylch, sgwâr a thriongl, a gwnânt luniau cymesurol drwy blygu papur. Llwyddant ddidoli ffrwythau gwahanol. Defnyddiant amrywiaeth o ffurfiau i gynrychioli data a gasglwyd, gan gynnwys gosod ffrwythau yn nhrefn graff bloc ar y llawr uwchben lluniau ohonynt. Cofnodant gyfrifiadau pen yn anffurfiol.

Derbyn

189 Mae'r plant pedair oed yn defnyddio rhifau'n hyderus wrth gyfrif ymlaen a nôl. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gyfatebiaeth nifer o wrthrychau i'r symbol, ac maent yn datblygu dealltwriaeth briodol o drefnolion syml megis cyntaf ac ail. Deallant sut i drefnu wyau yn ôl eu maint o'r lleiaf i'r fwyaf. Gallant adio a thynnu dau rif lan i 10, gan gyfrif faint o wyau mae Croc y crocodeil yn dwyn allan o'r ddeg wy yn y fasedg, a faint mae'n gadael ar ôl. Llwyddant ysgrifennu brawddeg i gofnodi eu symiau gan ddefnyddio'r symbolau cywir am adio, thynnu ac yn gyfartal i. Gallant ail-adrodd patrymau a chreu dilyniannau yn briodol. Maent i gyd yn deall pwrpas arian, ac yn ei defnyddio'n hyderus i brynu a rhoi newid yn siop y fferm a'r olchfa ceir. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o siapau dau-ddimensiwn a rhai tri-dimensiwn, ac maent yn gyfarwydd â chysyniadau pwysu a mesur. Gallant gasglu gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau a defnyddio dulliau gwahanol i'w harddangos gan gynnwys TGCh.

Diffygion

190 Nid oes diffygion pwysig.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion da

Meithrin

191 Mae gan y plant tair oed ymwybyddiaeth dda o'r tymhorau a pha newidiadau sydd yn dilyn yn eu sgil. Gwyddant fod y dail yn newid lliw a chwympo yn yr hydref, bod angen dillad cynnes ar gyfer y gaeaf, a bod y gwanwyn yn amser plannu tatws a hau hadau moron. Maent yn enwi offer garddio wrth balu'r pridd. Maent yn deall bod angen gofalu am blanhigion drwy roi dŵr arnynt. Maent yn gwybod bod llaeth yn dod o'r fuwch, a dysgant eirfa berthnasol fel pwrs, godro a gwasgu wrth odro'r fuwch. Mae ganddynt wybodaeth briodol am yr ardal leol, ac

maent wedi ymweld â siop a chaffi lleol. Deallant fod rhaid cymysgu blawd, dŵr a burum i wneud bara, a bod angen tylino a siapio'r toes a'i adael i godi cyn ei bobi yn y ffwrn. Gwnânt fenyn allan o hufen. Gallant gymharu eu hunain gyda lluniau ohonynt hwy eu hunain fel babanod. Maent yn gwybod bod dathliadau fel y Nadolig a Dydd Gŵyl Dewi yn rhan bwysig o fywyd. Daw'r plant i sylweddoli bod bwydydd fel ffrwythau a llysiau yn blasu'n wahanol. Defnyddiant offer adeiladu amrywiol i wneud adeiladau.

Derbyn

192 Mae'r plant pedair oed yn deall bod wyau iâr yn deor ar gywion bach, a bod wyau gwahanol adar yn amrywio o ran maint a golwg. Deallant mai wyau'r llyffant yw'r grifft, a bod cylchred bywyd rhai anifeiliaid yn amlygu nifer o newidiadau o'r cam cyntaf i oedolyn yn ei llawn dwf. Llwyddant roi wy, lindys a phwpa pili-pala yn eu trefn gywir, yn ogystal â grifft, penbyliaid a llyffant. Maent yn sylweddoli bod angen gosod y grifft yn y pwll tu allan er mwyn iddo dyfu a newid. Maent yn gwybod bod blodau'r haul yn tyfu o'r hedyn, a bod angen golau, gwres a dŵr iddynt dyfu. Deallant fod rhewi dŵr yn cynhyrchu iâ, a'i fod yn ymdoddi wrth gynhesu. Deallant fod lliwiau gwahanol mewn enfys. Gallant ddisgrifio eu cartrefi eu hunan, ac mae ganddynt wybodaeth dda am nodweddion bwyd, patrymau deunydd ac anifeiliaid o goedwigoedd Affrica. Gwyddant fod y panda yn byw yn Tsieina. Defnyddiant gamerâu 'digi-blues' i gofnodi eu gweithgareddau yn hyderus.

Diffygion

193 Nid oes diffygion pwysig.

Datblygiad corfforol

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion da

Meithrin

194 Gall y mwyafrif drin amrywiaeth o offer er mwyn gwneud marciau ar bapur. Gallant hefyd drin siswrn, offer torri siapau a brws glud. Maent yn llwyddo defnyddio mân offer ar y byrddau ac yn y gweithgareddau byd bach. Gallant rollo, gwasgu a thorri clai wrth greu siapau, a phalu yn y tywod a'r pridd. Dengys y mwyafrif ymwybyddiaeth dda o ofod wrth iddynt symud o un gweithgaredd i'r nesaf, a rheolant eu cyrff yn dda wrth gerdded, rhedeg a sboncio, a newid o symud yn araf i symud yn gyflym. Gallant efelychu symudiadau anifeiliaid y fferm megis ceffyl, mochyn, cath a hwyaden yn hyderus a dangosant gydbwysedd da wrth lywio beiciau ac offer mawr. Llwyddant gerdded ar 'stilts' a datblygu sgiliau cyd-bwyso da wrth ddefnyddio'r offer dringo yn yr ardal allanol yn hyderus. Datblygant sgiliau rheoli da wrth ddefnyddio'r llygoden mewn ystod o feddalwedd TGCh.

Derbyn

195 Mae'r plant yn rheoli eu sgiliau corfforol yn dda iawn. Maent yn trafod offer yn briodol yn y siop fferm a'r milfeddygfa. Defnyddiant ystod o offer garddio gan gynnwys whilber. Deallant fod cerdded a rhedeg o gwmpas yr iard yn cael effaith ar eu cyrff ac ar eu calonnau. Rheolant eu symudiadau yn effeithiol wrth deithio mewn cyfeiriadau gwahanol, a chyd-symud fel trên. Mae'r mwyafrif yn

rheoli cylch yn dda drwy ei rollo, droelli, a'i ddefnyddio i sgipio a neidio nôl ac ymlaen. Dangosant y gallu i neidio i mewn ac allan o'r cylchoedd mewn cyfeiriadau gwahanol a chydbwyso cylchoedd bach yn effeithiol ar eu pennau wrth gerdded o gwmpas. Gallant deithio ar hyd offer mawr yn hyderus yn yr ardal allanol. Gallant rollo, dylino a siapio toes. Rheolant y llygoden yn eu gweithgareddau TGCh a defnyddiant frws paent, rholiwr a sbwng yn effeithiol i greu lluniau. Gallant drafod darnau jig-so yn ddeheuig.

Diffygion

196 Nid oes diffygion pwysig.

Datblygiad creadigol

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion da

Meithrin

197 Mae'r plant yn canu detholiad o rigymau a chaneuon iaith a rhif. Maent yn canu'n ddigyfeiliant a gyda chyfeiliant, ac yn dangos ymwybyddiaeth briodol o rythm. Gwnânt symudiadau corfforol sy'n cadw'r curiad. Datblygant ddealltwriaeth gynyddol o siâp, llinell a ffurf drwy baentio o'r dychymyg, darlunio arsylwadol ac argraffu gyda dwylo ac ystod o wrthrychau. Dysgant dechnegau marblïo yn defnyddio gwahanol gyfryngau megis, ewyn eillio a phaent arbennig i greu printiau ac addurno wyau. Defnyddiant amrywiaeth o gyfryngau megis creonau, pasteli olew, paent, sialc a golosg yn hyderus. Dangosant sgiliau torri a gludo da iawn.

Derbyn

198 Mae'r plant yn geirio'n glir a chadw rhythm wrth ganu nifer da o rigymau, hwiangerddi a chaneuon yn ymwneud a gweithgareddau iaith a rhif. Arbrofant â gwahanol ffyrdd o gynhyrchu seiniau gan gynnwys sosbenni metel, trymped a thelyn. Gallant ddefnyddio ystod o offerynnau di-draw i greu cyfeiliant syml a chwarae patrymau rhythmig. Llwyddant wrando ar amrywiaeth o gerddoriaeth ac ymateb yn briodol iddi, gan enwi rhai offerynnau. Maent yn deall bod symudiadau'r anifeiliaid gwahanol yn 'Carnifal yr anifeiliaid' yn gryf, tawel, cyflym, araf, uchel ac isel. Gallant berfformio symudiadau syml sy'n perthyn i ddawnsio gwerin Gymreig a dawnsfeydd o ddiwylliannau eraill. Llwyddant i greu iglw yn eu dosbarth drwy gludo poteli llaeth plastig. Defnyddiant sialc yn hyderus i wneud lluniau a siapau ar fwrdd du yn y dosbarth. Gwnânt furlun mawr gan ysgwyd brwshys paent, mawr, a phrintio gyda sbwng a dwylo. Deallant fod coch a melyn yn gwneud oren, glas a melyn yn gwneud gwyrdd a glas a choch yn gwneud porffor. Gwnânt ddefnydd da o sgiliau TGCh i wneud lluniau o eliffantod a nadroedd.

Diffygion

199 Nid oes diffygion pwysig.

Cymraeg iaith gyntaf

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

- 200 Mae disgyblion CA1 yn datblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus wrth weithio mewn grwpiau ac wrth siarad am eu gwaith. Mae ganddynt berthynas dda â'i gilydd ac yn gwrando'n dda ar storïau a chyfarwyddiadau. Defnyddiant amrediad cynyddol o gystrawennau a phatrymau iaith yn gywir a'u hymarfer yn fwriadus wrth chwarae rôl o fewn y dosbarth. Mae rhai yn medru adrodd darnau o farddoniaeth ar y cof gan enwi'r bardd a dangos ymwybyddiaeth dda o odl.
- 201 Mae disgyblion CA1 yn datblygu eu sgiliau darllen yn dda, yn ôl eu hoed a'u gallu, gan ddatblygu cywirdeb ynganiad. Maent yn uniaethu'n dda gyda chymeriadau storïau a llawer yn rhagfynegi a mynegi barn yn ddeallus. Defnyddiant derminoleg llyfr yn briodol megis gofynnod ac ebychnod gan ddeall y defnydd o ddyfynodau.
- 202 Datblygant yn ysgrifenywyr annibynnol gan ymateb yn dda i brofiadau a symbyliadau megis yr hen dŷ, gan restru a labelu mathau o dai ac anfon cerdyn post o dŷ mam-gu. Cânt hwyl wrth adolygu'r stori a chofnodi anturiaethau'r ci 'Harri Parri' gan ddefnyddio ffurf fer y ferf yn gywir. Mae'r mwyafrif yn hyderus wrth ddefnyddio priflythyren ac atalnod llawn, gan drefnu geiriau, defnyddio ansoddeiriau ac atalnodi'n gywir. Amrywiant eu patrymau brawddegol yn dda.
- 203 Mae disgyblion CA2 yn gwneud cynnydd effeithiol ac yn cyflawni safonau da yn eu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu. Medrant adrodd hanesion am chwedlau gwerin Cymru ac mae eu hymwybyddiaeth o farddoniaeth a beirdd yn amrywio o I D Hooson i T Llew Jones yn nodwedd ragorol. Drwy ymarfer patrymau iaith yn gyson, mae'r mwyafrif yn datblygu cywirdeb cynyddol yn eu gwaith llafar ac ysgrifennu. Mae llawer yn darllen llyfrau gwybodaeth, barddoniaeth a ffuglen gyda mynegiant ac aeddfedrwydd a dealltwriaeth dda o'r cynnwys.
- 204 Mae disgyblion iau'r cyfnod allweddol yn datblygu'u gallu i ddisgrifio cymeriadau a lleoliadau gan eu cynnwys yn effeithiol mewn storïau. Datblygant y gallu i ysgrifennu portreadau effeithiol ac mae'r posteri 'Yn Eisiau' a baratoir ganddynt am Owain Glyndŵr yn dangos defnydd da o ansoddeiriau, cymariaethau ac idiomau. Drwy'r ysgol dânt yn ymwybodol iawn o ddjarhebion amrywiol.
- 205 Mae'r disgyblion hŷn yn ymwybodol o dafodiaith ac amlygir hyn wrth lunio deialog yn seiliedig ar hanes Tryweryn. Maent yn cymharu arddull nofel Gwenno Hughes gyda T Llew Jones ar ôl darllen y nofel 'Un Noson Dywyll'.
- 206 Ysgrifennant at ystod o ddibenion sy'n cynnwys fersiwn gyfoes ddiddorol o stori Culhwch ac Olwen ac am eu hoff gymeriad yn chwedl Branwen. Dengys B6 wybodaeth dda o bynciau'r dydd gan fynegi barn, ysgrifennu cronolegol a datblygu syniadau a gwybodaeth ar ffurf adroddiad papur newydd gan ddefnyddio iaith a sgiliau priodol. Defnyddiant benawdau bachog a chyflythrennu chwim, yn effeithiol, er mwyn dal sylw'r darlennydd, a gwnânt ddefnydd da o'u bwrdd dathlu doniau i ddangos enghreifftiau da o fodelu iaith.

Diffygion

- 207 Mae gwallau treiglo yn amharu ar safon gwaith ychydig o'r disgyblion.

Gwyddoniaeth

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

- 208 Mae dysgwyr B1 yn cymharu nodweddion gwahanol wrthrychau ac yn deall yn dda bod gwahanol ddefnyddiau yn addas ar gyfer gwahanol bwrpasau. Mae rhai yn dechrau datblygu eu hymwybyddiaeth o ba ddeunyddiau sy'n fagnetig. Dechreuant ddeall pwysigrwydd prawf teg wrth iddynt arbrofi i ddarganfod pa ddefnydd sydd orau ar gyfer amsugno dŵr.
- 209 Dengys llawer o ddisgyblon B2 sgiliau arsylwi da a gwnânt sylwadau pwrpasol wrth ymchwilio i ddarganfod effaith gwresogi ac oeri ar wahanol ddefnyddiau. Dangosant ymwybyddiaeth dda o ffynonellau golau. Arbrofant yn dda gyda chylchedau trydan, a deallant fod rhaid cael cylched cyflawn cyn i fwlb oleuo. Mae eu dealltwriaeth o brawf teg yn datblygu'n dda wrth iddynt ymchwilio i effaith uchder ramp ar y pellter y mae car yn teithio. Defnyddiant dabl a graff yn dda i ddangos effaith agosrwydd at ffynhonnell sain ar gryfder y sŵn y maent yn clywed.
- 210 Mae gan ddisgyblion B3 ymwybyddiaeth dda o briodweddau gwahanol ddefnyddiau ac arbrofant yn dda i ddarganfod os yw defnydd disglair yn fwy effeithiol ar gyfer cadw iâ rhag ymdoddi ac os yw defnydd trwchus yn fwy tebygol o gadw dŵr yn gynnes. Llwyddant ffurfio cylchedau trydan gan ddefnyddio switshis. Maent yn ymwybodol o sut mae cysgodion yn ffurfio ac yn newid o ran maint a siâp ar draws amser.
- 211 Dengys disgyblion B4 sgiliau rhagfynegi effeithiol a dealltwriaeth dda o'r cysyniad o ddirgrynu a sut mae sain yn teithio, drwy arbrofi a defnyddio ystod o offer gan gynnwys dŵr. Cofnodant eu harsylwadau yn ofalus. Mae'r rhan fwyaf yn deall y cysyniad o newid defnyddiau yn eu gwaith yn ymwneud â solidau, hylifau a nwyon ac yn dangos sgiliau ymchwil da wrth ddarganfod os yw rhai wynebaw yn adlewyrchu goleuni yn well nag eraill.
- 212 Mae gan ddisgyblion B5 ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd y galon yn ogystal â swyddogaeth gwahanol rannau o brif organ y corff. Arbrofant yn effeithol er mwyn darganfod effaith gwahanol ymarferion corfforol ar guriad y galon. Gwnânt ddefnydd priodol o dablau a graffau i gyflwyno ac esbonio eu darganfyddiadau. Dangosant sgiliau arsylwi da wrth ganolbwyntio ar wahanol rannau o flodau yn eu gwaith cychwynnol yn ymwneud â sut mae planhigion yn atgenhedlu. Maent wedi cynnal ymchwiliadau da ar lefelau ffrithiant gwahanol esgidiau.
- 213 Mae disgyblion B6 yn datblygu dealltwriaeth dda o natur deunyddiau y gellid eu hailgylchu. Gwnânt waith ymchwil effeithiol wrth ddarganfod beth sy'n digwydd i wastraff sy'n cael ei ailgylchu. Mae'r rhan fwyaf yn arddangos ymwybyddiaeth dda o sut mae golau yn teithio a dealltwriaeth dda o'r termau 'di-draidd', 'tryleu' a 'thryloyw'. Arbrofant yn dda er mwyn darganfod pa ddefnyddiau sy'n creu'r blacowt orau a pha fath o hylif sy'n debygol o lifo'n gyflymach.
- 214 Ar lefelau priodol ar draws CA2 datblyga'r rhan fwyaf o ddisgyblion sgiliau ymchwil da. Dengys eu gwaith yr ystyriaeth a roddant i sicrhau prawf teg gan gynnwys ail adrodd gweithgareddau pan mae angen. Cyflwynant eu darganfyddiadau mewn ffordd amrywiol gan gynnwys diagramau, tablau a

graffiau yn ogystal â darnau o ysgrifennu estynedig. Mae llawer yn gwerthuso'r broses ymchwil yn fedrus ac yn tynnu casgliadau da.

Diffygion

215 Nid oes diffygion arwyddocaol.

Dylunio a thechnoleg

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

- 216 Trwy ddefnyddio ystod o ddefnyddiau gan gynnwys cardfwrdd a phren, mae disgyblion B1 wedi creu teganau roli-poli o safon dda ar gyfer plant bach. Trafodant y broses o gynllunio a chymau gwneud yn fedrus. Deallant bwrpas gwahanol rannau'r teganau gan gynnwys olwynion ac echelin a dangosant ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd ateb gofynion y dasg ac arbrofi gyda gwahanol strategaethau. Gwerthusant eu cynnyrch yn dda cyn mynd ati i'w addurno er mwyn ei wneud yn fwy deniadol i blant bach
- 217 Dengys disgyblion B2 ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd gwaith ymchwil blaenorol a chynllunio priodol cyn creu brechdanau yn cynnwys gwahanol gynhwysion. Dangosant ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd glendid cyn trin bwyd. Dangosant sgiliau da wrth ystyried pa mor llwyddiannus yw eu hymdrechion o safbwynt arogl, blas a gwead. Dengys gwaith blaenorol bod llawer o'r disgyblion wedi cynllunio, arbrofi a chreu gwahanol fathau o dai a chelfi yn llwyddiannus gan ddefnyddio deunyddiau yn cynnwys cardfwrdd, papur a phren.
- 218 Yn eu gwaith cychwynnol ar greu sliperi, mae disgyblion B3 yn arbrofi'n dda gyda gwahanol ddefnyddiau gan eu mesur, torri a'u huno yn fedrus. Cynhyrcha'r mwyafrif "brototeip" defnyddiol a gwnânt ddefnydd da o gamerâu i gadw cofnod o'r camau a gymerwyd. Maent yn cynnig syniadau ac yn trafod y camau nesaf yn effeithol. Dengys gwaith blaenorol sgiliau cynllunio manwl cyn mynd ati i ddefnyddio ystod o offer ailgylchu i greu gwahanol fathau o lampau. Gwnânt ddefnydd da o'u gwybodaeth o gylchedau trydan a switshis ar gyfer goleuo'r lampau. Dangosant sgiliau da wrth werthuso'r camau a gymerwyd a'r cynnyrch gorffenedig.
- 219 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion B4 yn arddangos sgiliau cynllunio ac arbrofi da iawn wrth greu mecanwaith awyreolaeth sy'n agor a chau. Gan gydweithio yn effeithiol iawn cynigiant syniadau yn hyderus a chynlluniant yn fanwl. Deallant sut i'w haddasu yn effeithiol iawn ar ôl arbrofi gyda gwahanol gamau o'r broses. Drwy ddefnyddio gwahanol fathau o bren maent wedi adeiladu pontydd o safon uchel. Cynlluniant yn dda iawn, gan nodi meini prawf clir a gwerthuso'r camau. Arbrofant gyda gwahanol ffyrdd o gryfhau'r pontydd yn dda iawn.
- 220 Datblyga disgyblion B5 ymwybyddiaeth dda o elfennau iechyd a diogelwch wrth baratoi cynhwysion i addurno bisgedi. Defnyddiant ganllawiau pwrpasol wrth werthuso eu dewisiadau. Mae llawer o'r disgyblion wedi cydweithio a defnyddio gwahanol fathau o bren er mwyn creu gwahanol fathau o gatapyltiau o safon dda. Dengys eu gwaith cynllunio a'u gwerthusiadau bod yr elfennau hyn o'u gwaith yn datblygu'n dda.

221 Mae disgyblion B6 wedi defnyddio ystod o ddefnyddiau wedi'u hailgylchu i greu teganau sy'n defnyddio mecanwaith cams i blant dan bump oed. Dangosant waith cynllunio manwl wrth ddarganfod sut mae tegan cam yn gweithio. Nodant feini prawf llwyddiant yn fedrus ac mae eu gwaith yn arddangos mesuriadau manwl a chyfarwyddiadau clir. Mae eu cynnyrch terfynol o safon dda a dangosant sgiliau gwerthuso effeithiol wrth ystyried y broses. Dengys gwaith ar greu reidiau ffair sgiliau cynnig syniadau effeithiol a defnydd da o ddiagramau yn ogystal â mesuriadau gofalus wrth iddynt fynd drwy'r broses o gynllunio.

Diffygion

222 Nid oes diffygion arwyddocaol.

Celf a dylunio

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod Allweddol 2: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

223 Defnyddia disgyblion B3 sgiliau TGCh rhagorol wrth werthuso eu gwaith yn creu cadeiriau i Gwyddno. Gwnânt frasluniau pensil manwl o gadeiriau pren, lledr a phlastig. Dangosant sgiliau dylunio da iawn wrth fraslunio rhannau o'r gadair, a gorgyffwrdd siapau, a dealltwriaeth dda o elfennau patrwm, siâp a llinell. Gwna disgyblion y ddau gyfnod allweddol ddefnydd da o'u llyfrau braslunio, i gofnodi a datblygu eu syniadau celf. Cynhwysir gwaith arsylwadol ynghyd â dylunio ac argraffu gydag ystod o wrthrychau, a chofnodi patrymau.

224 Ymchwilia disgyblion B4 i waith David Hockney i ystyried y technegau a ddefnyddir a'r effaith mae'r arlunydd yn ceisio ei wneud. Llwyddant greu lluniau yn yr un dull wrth dorri delweddau parod mewn stribedi a'u hail drefnu mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys gweu dau ddarlun gwahanol trwy'i gilydd. Dangosant dealltwriaeth dda o dôn, lliw a siâp, a llwyddant greu naws breuddwyd yn eu gwaith. Mae rhai disgyblion yn gwneud defnydd da iawn o TGCh i greu 'stori-ffoto', gan bwysleisio'r un elfen o dirwedd breuddwyd.

225 Defnyddia disgyblion B4 gamerâu digidol i dynnu lluniau o'i gilydd, a'u hail greu mewn blociau o liw trawiadol yn null portreadau Picasso. Dangosant ymwybyddiaeth ardderchog o effaith liwiau cynradd cryf wrth ddefnyddio pastel olew, a dealltwriaeth ragorol o siâp a gwead.

226 Dylunia disgyblion B5 ystod eang o benwisgoedd gwahanol, a defnyddiant mod-roc i greu penwisgoedd o ansawdd rhagorol, a'u haddurno gyda phaent, defnydd, rhubanau, plu a phapurau amrywiol. Maent yn dangos ymwybyddiaeth ragorol o siâp, lliw a gwead.

227 Dengys disgyblion B6 dealltwriaeth ragorol o gysyniad cyfansoddiad wrth drefnu gwrthrychau ar gyfer llun o fywyd llonydd. Defnyddiant amrywiaeth eang o arteffactau anarferol a rhai o fywyd pob dydd i greu cyfansoddiad. Mae eu sgiliau arsylwi ar siâp a llinell yn dda iawn wrth fraslunio a phensil a chreu tonau tywyll a golau i adlewyrchu effaith golau. Defnyddiant wybodaeth am waith Jan van Os, Herman van Steenwyk a Picasso fel symbyliad llwyddiannus.

Good features

228 Mae disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn gwneud defnydd da o'u llyfrau braslunio i gofnodi a datblygu eu syniadau. Cynhwysir gwaith arsylwadol yn ogystal â dylunio ac argraffu gydag ystod o wrthrychau, a chofnodi patrymau.

- 229 Crea disgyblion B1 gerflun tri-dimensiwn mewn ymateb i'r chwedl 'Merched y môr'. Dangosant ymwybyddiaeth dda o ffurf a phatrwm wrth arsylwi ar gregyn a physgod go iawn i greu cerfluniau clai. Maent yn dangos dealltwriaeth dda o waith Catrin Howells, Cŵn Cantre'r Gwaelod. Gwnânt ddefnydd da o'u sgiliau plethu a rholio stribedi o amrywiaeth o fathau o bapur i greu gwallt porffor, coch a gwyrdd y brenin Dylan.
- 230 Dengys disgyblion B1 ymwybyddiaeth dda o siâp, lliw a llinell yn eu hunanbortreadau. Arbrofiant gyda chymysgu paent i efelychu lliw croen, ac i greu siâp a gwead gwalltiau gwahanol. Llwyddant werthuso eu gwaith ac awgrymu gwelliannau'n effeithiol.
- 231 Mae disgyblion B2 yn ymarfer medrau arsylwi da wrth drafod lliwiau, patrymau streipiog, blodau ac addurniadau llachar clytwaith Indiaidd. Defnyddiant y clytwaith fel symbyliad i arbrofi gydag uno ystod eang o ffabrigau, gan gynnwys defnyddiau, papurau, ffoil a rhubanau. Medrant ddefnyddio sgiliau pwytho, gludo, plethu a staplo, i greu montage o siapau dewis, a dangosant ymwybyddiaeth dda o liw, siâp a gwead yn eu gwaith. Maent yn ymwybodol iawn o'r lluniau o ddelweddau naturiol sydd gan William Burgess yn ei waith.
- 232 Mae disgyblion B2 yn dangos dealltwriaeth dda o siâp, lliw, gwead a phatrwm wrth greu murlun teils. Defnyddiant symbyliad rwiadau o wrthrychau ac arwynebeddau yn yr ardal leol i lunio cyfuniad o frasluniau pensil sy'n adlewyrchu amrywiaeth o weadau. Ceir y teils eu paentio'n ddeheuig mewn lliwiau sydd yn cyfleu naws yr hydref.
- 233 Arbrofa disgyblion B3 gydag enghreifftiau o weadau gwahanol a gasglwyd i wneud bloc argraffu polystyren ar gyfer mono-print. Dangosant ddealltwriaeth dda o ail-adrodd patrymau amrywiol.
- 234 Gwerthfawroga disgyblion B5 waith Lowri Davies a chrefftwyr eraill cyn arbrofi gyda chlai ac arsylwi ar batrwm, siâp, a ffurf. Medrant gymharu'r dulliau a thechnegau a ddefnyddiant i greu sbiral fel sylfaen i ffurf tri-dimensiwn. Maent yn gwneud newidiadau addas, gan sylwi ar y canlyniadau.
- 235 Yn seiliedig ar rediad chwedl Branwen, llwydda disgyblion B6 greu croglenni sy'n fontage diddorol o ddelweddau mewn defnyddiau amrywiol, gan gynnwys papur, ffelt, rhubanau, cynfas, secwins a ffabrigau.

Diffygion

- 236 Nid oes diffygion arwyddocaol.

Cerddoriaeth

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

- 237 Mae disgyblion drwy'r ysgol yn canu ystod o ganeuon traddodiadol ac emynau gyda brwdfrydedd ac ymwybyddiaeth gynyddol o'r traw. Erbyn CA2, maent yn arddangos y gallu i reoli'r anadlu ac addasu'r ddynameg fel bo'n briodol wrth ganu ystod ehangach o ganeuon unsain a thôn gron gan ymestyn eu repertoire lleisiol yn llwyddiannus.

- 238 Mae disgyblion CA1 yn datblygu eu sgiliau meddwl wrth werthuso ystod o gerddoriaeth sy'n perthyn i arddulliau amrywiol, megis cyfleu eu teimpladau wrth wrando ar 'Flight of the Bumble Bee' a 'Ffantasia ar Hwiangerddi' gan Grace Williams. Mae disgyblion B1 yn ymateb yn dda i ffynonellau sain, megis cerddoriaeth 'Sunrise', gan gyfleu'r sain drwy symudiadau a defnydd o offerynnau. Trafodant eu teimpladau wrth wrando ar 'Ffanffer i'r dyn cyffredin' a gorymdeithiau priodasol ac angladdol.
- 239 Wrth wrando ar gerddoriaeth Vivaldi am y gwanwyn mae'r mwyafrif yn medru cyfeirio at naws y darn gan ddefnyddio eu sgiliau creadigol yn effeithiol wrth ymateb i'r gerddoriaeth. Dangosant ymwybyddiaeth gynyddol o enwau offerynnau'r gerddorfa a deallant fod y darn a glywyd yn concerto i'r ffidil.
- 240 Mae disgyblion iau CA2 yn gwybod mai Gustav Holst a gyfansoddodd 'Y Planedau' a medr y goreuon gymharu'r naws yn 'Gwener' a 'Mawrth' gan ddefnyddio geirfa briodol. Defnyddiant offerynnau yn effeithiol wrth ymchwilio, creu, dewis a threfnu synau er mwyn cyfleu naws wrth ymateb i symbyliad megis darn o farddoniaeth am hynt y gwynt. Mae ganddynt ymwybyddiaeth eang o gerddoriaeth o 'Danse Macabre' gan Saint-Saens i 'Seithennyn' gan Big Leaves ac ymdrechant i wahaniaethu'n effeithiol o fewn yr elfennau cerddorol. Sylwant ar yr ostinato mewn caneuon o ddiwylliannau gwahanol.
- 241 Mae profiadau cerddorol y disgyblion hŷn yn cael eu hymestyn wrth werthuso 'u perfformiadau lleisiol ac offerynnol eu hunain a pherfformiadau o draciau cerddorol, sy'n cyfleu naws arbennig mewn ffilmiau amrywiol. Cynigia llawer o ddisgyblion farn am y cyfansoddiadau gan gyfathrebu'n hyderus wrth drafod yr elfennau cerddorol. Llwyddant i ddatblygu a mireinio eu syniadau wrth gyfansoddi darnau amrywiol o dan themâu megis cyffro, ofn a rhamant gan ddefnyddio allweddellau ac offerynnau di-draw yn effeithiol iawn. Mewn gwersi blaenorol, cysylltir y profiadau cerddorol yn effeithiol iawn gyda themâu hanes megis yr ail ryfel byd ac mae gallu disgyblion i uniaethu gyda cherddoriaeth orymdeithiol megis y 'Dambusters March' a chaneuon Vera Lynn yn nodwedd dda yn eu datblygiad cerddorol.
- 242 Dengys y disgyblion o CA2 sy'n derbyn gwersi offerynnol yn yr ysgol ar y delyn, gitâr, ffidil, allweddell a phres gryn fedruswydd wrth berfformio darnau'n gyhoeddus ar yr offerynnau hynny a chyfrannant yn dda at ddatblygiad sgiliau eu cyfoedion.

Diffygion

- 243 Nid oes diffygion pwysig.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Mae'r staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni Ysgol Mynydd Bychan yn ymfalchïo bod y tîm arolygu wedi cydnabod bod ein hysgol yn ysgol dda gyda nodweddion rhagorol.

Gwerthfawrogwn y gydnabyddiaeth o gydweithio tîm ardderchog, ansawdd uchel yr addysgu a'r dysgu, yr ethos Cymreig, cyfraniad rhagorol y llywodraethwyr a rhieni, ymddygiad ac ymagweddau rhagorol y disgyblion ac ansawdd rhagorol y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddid a gynigir i ddisgyblion.

Rydym yn falch fod yr arolygwyr wedi cydnabod bod ein pwyslais ar ddatblygiad y plentyn cyfan a'n hymrwymiad i sicrhau cymuned ysgol lle mae pob unigolyn yn cael yr un cyfle i ddatblygu doniau unigol yn rhoi sail gadarn i ddarpariaeth gyfoethog yr ysgol.

Cydweithiwn nawr i ymateb i argymhellion yr adroddiad er mwyn adeiladu ar ein llwyddiannau a pharhau â'n hymroddiad i sicrhau'r addysg orau i'n disgyblion mewn awyrgylch hapus a gofalgar.

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Gynradd Gymraeg Mynydd Bychan
Math o ysgol	Cynradd gan gynnwys y Cyfnod Sylfaen
Ystod oedran y disgyblion	3-11
Cyfeiriad yr ysgol	Heol Seland Newydd Caerdydd
Cod post	CF14 3BR
Rhif ffôn	02920 613417

Pennaeth	Miss Siân Evans
Dyddiad penodi	Medi 2007
Cadeirydd y llywodraethwyr	Mr Hywel James
Arolygydd cofrestredig	Mrs Rhiannon Harris
Dyddiadau'r arolygiad	16-18 Mawrth 2010

Atodiad 2

Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	25	30	29	29	30	29	26	29	227

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyferth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	8	5	10.5

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	29.1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	8.1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	-
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	29
Cymhareb athro (call): dosbarth	1.1

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Gwanwyn 2009	89.8	92.6	93.5
Haf 2009	87.8	94.5	94.9
Hydref 2009	89.5	91.0	93.8

Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim	13.9
Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	1

Atodiad 3

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data 2009 ar gyfer gwybodaeth gymharol yr AALI a Chymru


YSGOL MYNYDD BYCHAN
Caerdydd

Rhif yr AALI/Ysgol:681/2180


Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2009 gyda meincnodi Cyfnod Allweddol 1

Canran y bechgyn, merched a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwylidig o leiaf (Lefel 2+):

	Bechgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2009	AALI 2009	Cymru 2009	Ysgol 2009	AALI 2009	Cymru 2009	Ysgol 2009	AALI 2009	Cymru 2009
Saesneg			81		88	88		84	83
Cymraeg	94	90	87	83	93	93	90	92	90
Mathemateg	83	87	85	83	89	89	83	88	87
Gwyddoniaeth	94	90	88	83	92	92	90	91	90
DPC	83	80	77	83	85	85	83	82	81



Perfformiad yr ysgol dros amser (2005 - 2009)



Gwybodaeth gyd-destunol

Wedi'i meincnodi yn erbyn ysgol â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim Nodwyd canlyniadau'r ysgol yn y blychau llwyd. Mae penawdau'r colofnau yn cyfeirio at:

Chwartzel 1 Mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf

Chwartzel 2 Mae'r ysgol ymhlith y 50% uchaf ond nid y 25% uchaf

Chwartzel 3 Mae'r ysgol ymhlith y 50% isaf ond nid y 25% isaf

Chwartzel 4 Mae'r ysgol ymhlith y 25% isaf

Grŵp Prydau Ysgol am Ddim

8% neu fwy a hyd at 16% yn gymwys i gael Pryd Ysgol am Ddim

	Chwartzel 4	Ffin Chwartzel Isaf	Chwartzel 3	Ffin Canolrif	Chwartzel 2	Ffin Chwartzel Uchaf	Chwartzel 1
Saesneg		80		88		93	
Cymraeg		84	90	92		100	
Mathemateg	83	84		90		96	
Gwyddoniaeth		87	90	94		100	
DPC		76	83	85		92	

Nodiadau:

1. Mae'r ffigurau ar gyfer Cymraeg yn cyfeirio at gyrhaeddiad Cymraeg iaith gyntaf yn unig
2. DPC = Dangosydd Pynciau Craidd. I sicrhau DPC, mae'n rhaid i ddisgybl gyflawni o leiaf lefel 2 disgwylidig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf

3. Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwch ar gyfer y flwyddyn honno.

Adroddiad gan Rhiannon Harris
Ysgol Mynydd Bychan, 15/03/10

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data 2009 ar gyfer gwybodaeth gymharol yr AALI a Chymru


YSGOL MYNYDD BYCHAN
Caerdydd

Rhif yr AALI/Ysgol:681/2180


**Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2009 gyda meincnodi
Cyfnod Allweddol 2**

Canran y bechgyn, merched a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig o leiaf (Lefel 4+):

	Bechgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2009	AALI 2009	Cymru 2009	Ysgol 2009	AALI 2009	Cymru 2009	Ysgol 2009	AALI 2009	Cymru 2009
Saesneg	83	80	76	78	87	87	80	83	81
Cymraeg	75	83	73	78	91	86	77	87	80
Mathemateg	75	83	80	78	85	85	77	84	82
Gwyddoniaeth	75	86	84	78	90	89	77	88	86
DPC	75	76	73	78	81	82	77	79	77



Perfformiad yr ysgol dros amser (2005 - 2009)



Gwybodaeth gyd-destunol

Weddi'r meincnodi yn erbyn ysgol â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim Nodwyd canlyniadau'r ysgol yn y blychau llwyd. Mae penawdau'r colofnau yn cyfeirio at:

- Chwartzel 1 Mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf
- Chwartzel 2 Mae'r ysgol ymhlith y 50% uchaf ond nid y 25% uchaf
- Chwartzel 3 Mae'r ysgol ymhlith y 50% isaf ond nid y 25% isaf
- Chwartzel 4 Mae'r ysgol ymhlith y 25% isaf

Grŵp Prydau Ysgol am Ddim
8% neu fwy a hyd at 16% yn gymwys i gael Pryd Ysgol am Ddim

	Chwartzel 4	Ffin Chwartzel Isaf	Chwartzel 3	Ffin Canolrif	Chwartzel 2	Ffin Chwartzel Uchaf	Chwartzel 1
Saesneg		78	80	85		92	
Cymraeg		69	77	80		90	
Mathemateg	77	79		87		93	
Gwyddoniaeth	77	84		90		97	
DPC		72	77	81		88	

Nodiadau:

1. Mae'r ffigurau ar gyfer Cymraeg yn cyfeirio at gyrhaeddiad Cymraeg iaith gyntaf yn unig
2. DPC = Dangosydd Pynciau Craidd. I sicrhau DPC, mae'n rhaid i ddisgybl gyflawni o leiaf lefel 4 disgwyliedig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf
3. Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwch ar gyfer y flwyddyn honno.

Crëwyd yr adroddiad gan DEWi ar 25/09/2009

Tudalen 1 o 1

Atodiad 4

Sail dystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd tîm o bedwar arolygydd gyfanswm o 10 diwrnod arolygu yn yr ysgol. Bu asesydd cymheiriaid hefyd yn yr ysgol am dri diwrnod. Cynorthwywyd y tîm arolygu gan enwebai'r ysgol. Cyfarfu'r tîm cyn i'r arolygiad gychwyn.

Bu'r arolygwyr yn ymweld â:

- 41 o wersi neu rannau o wersi
- cyfnodau cofrestru, gwasanaethau a gweithredoedd o addoli ar y cyd, ac
- ystod o weithgareddau allgyrsiol

Cynhaliodd aelodau o'r tîm arolygu gyfarfodydd gyda:

- staff, llywodraethwyr a rhieni cyn yr arolygiad;
- athrawon a chymorthyddion;
- grwpiau o ddisgyblion o bob dosbarth
- y cyngor ysgol a'r pwyllgor Eco, a
- phartïon eraill a diddordeb sydd yn gysylltiedig â'r ysgol

Bu'r tîm hefyd yn ystyried:

- adroddiad hunan arfarnu'r ysgol;
- 41 o ymatebion i'r holiadur rhieni, y rhan fwyaf ohonynt yn gadarnhaol;
- dogfennau a ddarparwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad;
- ystod eang o waith presennol y disgyblion ynghyd a gwaith a wnaed eisoes, ac
- enghreifftiau o adroddiadau'r disgyblion

Yn dilyn yr arolygiad, cynhaliodd y tîm gyfarfodydd gyda'r staff a'r llywodraethwyr.

Atodiad 5

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	Cyfrifoldebau
Rhiannon Harris	Arwain ar: Cyd-destun, Crynodeb, Argymhellion a'r Atodiadau Cwestiynau Allweddol 1, 5 a 7 Cyfnod Sylfaen, Celf
Gwynoro Jones	Cyfrannu at: Cwestiynau Allweddol 1, 3, 4 a 7
Audrey Evans	Arwain ar: Cwestiwn Allweddol 2 a 4 Cymraeg, Cerddoriaeth
Brinley Jones	Arwain ar: Cwestiynau Allweddol 3 a 6 Gwyddoniaeth, Dylunio a Thechnoleg
Hefin Gruffydd	Asesydd Cymheiriad
Siân Evans	Enwebai

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i'r llywodraethwyr, y pennaeth, staff, disgyblion a rhieni Ysgol Gymraeg Mynydd Bychan am eu cydweithrediad parod cyn ac yn ystod yr arolygiad.

Contractwr: EPPC/Severn Crossing Cyf
Swît F2A, Tŷ Britannic, Llandarsi, Castell-nedd SA10 6JQ